

ECO'R WYDDFA

RHIF 390

GORFFENNAF 2011

PRIS 50c

YN Y RHIFYN HWN:

- Arddangosfa gan artist lleol
- Cystadleuaeth Gardd Fwyd
- Clwb Haf Cynllun Efe
- Beicio o Gastell i Gastell

PENCAMPWYR CYMRU



Adroddiadau llawn dan newyddion y gwahanol bentrefi.

YSGOL PENISARWAUN

*1af Parti Unsain
2il Côr
3ydd Cân Actol*



YSGOL LLANRUG

Tomi Llewelyn

*1af, Unawd
Blwyddyn 2
2il, Unawd Cerdd
Dant, Blwyddyn 2*



CAEATHRO Lois Bee, 1af Adran Tecstilïau



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD - ABERTAWE



ECO'R WYDDFA

RHIF 390

GORFFENNAF 2011

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau

ar e-bost i

alwenaowen@gmail.com

neu

Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE

neu:

ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS SUL, 21 AWST

Os gwelwch yn dda.

Dyddiad Gosod

NOS SUL, 28 AWST

Sefydliad Coffa Llanrug

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 1 MEDI

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2011

Rhifyn	Copi	Gosod	Plygu	Ble
Medi	Awst 21	Awst 28	Medi 1	LLANRUG

Llythyrnau

TYMHORAU'N NEWID?

Annwyl Olygydd

Dama'd o amsar yn ôl, mi roeddwn yn chwilota, heb fynd i bendwmpian yn rhy ormodol yng nghanol y gwres llethol, (mi fydda i'n g'neud hynny ar brydiau wyddoch chi), ac wedi taro ar rifyn go ddiddorol o'r newyddiadur wythnosol Y Genedl Gymreig, hefo'r dyddiad Mawrth 3ydd (1930) ynghlwm wrtho, pryd y gwelais: GLASGOED (mi roedd hynny'n canu cloch) - Coeden hynod - Galwyd fy sylw, ebe'r colofnydd lleol, y noson o' r blaen at goeden afalau yng ngardd Mr Joseph Jones, Waen Howel, Pontrhythallt, ar yr hon yn Ionawr yr oedd blodau, a'r dyddiau hyn gwelir arni 22 o afalau bychain. Gofynnir a oes gofnod am ei thebyg?

Rŵan ynte yn y flwyddyn 1930 y digwydd hyn i gyd, sy'n peri inni feddwl ynghylch hinsawdd y byd yn ein canrif ni, a'r honiad ei bod hi'n ddiweddar, fel petae heb ddigwydd cyn hynny, yn llawer cynhesach, ac na fyddwn yn gweld eira, fel y digwyddodd yn ystod mis Mehefin eleni, ar gopa'r Wyddfa!

DAFYDD GUTO

DOSBARTH DYSGU CYMRAEG

Coleg Menai

Annwyl Ddarllenwyr

Ydych chi'n adnabod rhywun di-Gymraeg sy'n byw yn eich cymuned? Os felly, gwnewch dro da â hwy ac awgrymwch eu bod yn mynychu dosbarth dysgu Cymraeg i Oedolion. Mae'r buddion yn enfawr - o intigreiddio'n llawn i'r gymuned Gymraeg leol i sicrhau fod y Gymraeg yn ffynnu!

Mae Coleg Menai yn cynnig nifer o opsiynau - sesiynau blasu, i ddosbarthiadau dydd a nos mewn amryw o safleoedd ar draws gogledd Gwynedd a Môn. Mae'r dosbarthiadau yn rhai hwyliog ond addysgol!

Am fwy o wybodaeth gellir cysylltu â mi ar (01407) 765755 neu symudol 07971 820705, neu e-bost:

llinos.jones@menai.ac.uk

Yn gywir

LLINOS MAIR JONES

Swyddog Recriwtio

Cymraeg i Oedolion

Coleg Menai

RHYFEDDODAU ERYRI

Annwyl Olygydd,

Ar Hydref 18 eleni bydd Parc Cenedlaethol Eryri yn dathlu ei 60 mlwyddiant ac, fel rhan o'r dathliadau, rydym yn cynllunio prosiect 'Rhyfeddodau Eryri'. Dyma apêl i chi, drigolion Eryri, enwebu eich hoff rhyfeddodau o fewn ffiniau'r parc Cenedlaethol, sef y nodweddion rheiny sy'n gwneud yr ardal hon mor arbennig ac unigryw. Gall y rhyfeddodau hyn gynnwys lleoedd, pobl, adeiladau, rhywogaethau bywyd gwyllt, safleoedd archeolegol, creigiau neu gromlechi, traddodiadau amaethyddol, traddodiadau diwylliannol Cymreig, cerddi, darluniau celf, darnau o gerddoriaeth, ac yn y blaen. Does dim cyfyngiadau o gwbl ar sgôp y rhyfeddodau a dim ond un rheol sydd: mae'n rhaid i'r rhyfeddod fod o fewn ffiniau y Parc Cenedlaethol.

Bydd trigain o lenorion a ffotograffydd yn dehongli'r rhyfeddodau hyn drwy destun a llun a bydd y gwaith yn cyfrannu at arddangosfeydd newydd yng Nghanolfan Groeso y Parc Cenedlaethol ym Metws y Coed ac ar ein gwefan i godi ymwybyddiaeth o rinweddau arbennig yr ardal. Noddir y prosiect gan Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

I enwebu eich hoff rhyfeddodau, mae croeso cynnes iawn i chi gysylltu â mi - gweler fy manylion cyswllt isod.

Yn gywir iawn

NAOMI JONES (Swyddog
Bwrlwm Eryri)

Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
LL48 6LF

Ffôn 01766 770274

naomi.jones@eryri-npa.gov.uk

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG - WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

RHODDION

£25: Er cof am Deryck Gomez, Llanberis a Llundain.

£20: Mrs Mair Jones, Arddol, Bethel; Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch, Cwm-y-glo; Iorwerth a'r teulu er cof am Peri Evans, 5 Hafod Oleu, Deiniolen; Ildid a'r teulu, er cof am Gwen ac Ifan.

£10: I gofio Gwenda, gan deulu Creigle gynt; Dafydd a Lillian Roberts, Dwyrdd, 27 Glanffynnon, Llanrug; Mrs Katie Davies, 6 Hafan Elan, Llanrug; Mrs Lowri Dunn, Trigfa, Waunfawr; Nora O'Brien, Penrhos, Bangor.

£8.50: Maureen er cof am Evan Lewis, Woolton.

£5: Elwyn Hughes, Bryn Ogwen, Bethel; Dienw, Bethel; Mrs Kathleen Williams, 6 Glanrafon Bungalows, Llanberis; Mrs Megan Axon, 13 Hafan Elan, Llanrug; Mrs Meinir Williams, Arwelfa, Bryn Moelyn, Llanrug; Alfie a Heulwen, Hafod Rhug, Waunfawr; Derek ac Eleanor, 7 Ffordd Deiniol, Deiniolen; Gareth Jones, 27 Dôl Elidir, Llanberis; Glenys Griffith, Bethel.

Cist Gymunedol

Awydd £1,500

tuag at eich prosiect
chwaraeon cymunedol?

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Rhian Dobson

Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianeleridobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057

Sporth Wales
chwaraeocymru

www.gwynedd.gov.uk

Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch

â Gomer Roberts

Ffôn : 01286 870462

Symudol : 07962 712368



Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

HWYL YN Y BALA ETO

Eleni eto, roedd acenion Arfon yn llenwi Coleg y Bala am ddeuddydd ym mis Mai wrth i 38 o blant Llanberis a Llanrug fwynhau un o'r cyrsiau penwythnos a drefnir gan y Coleg ar gyfer plant yr eglwysi. Yn fuan wedi cyrraedd adref o'r ysgol bawn Gwener, Mai 20, roedd yn amser i blant Ysgol Sul Capel Coch, Llanberis ac Ysgol Sul Capel y Rhos, Llanrug gychwyn i'r Bala.

Roedd y bws yn orlawn o blant a'u paciau, a chyrhaeddwyd yn ddiogel erbyn amser swper. Ac yna, ymdaflodd pawb i'r gwahanol weithgareddau, a oedd eleni eto yn cynnwys sesiynau dysgu am y Beibl trwy hwyl a gemau, stori a chân, crefft a chwarae. Hanes Nehemeia yn mynd i Jerwsalem i ailadeiladu muriau'r ddinas oedd y thema y tro hwn, ac roedd yn dda gweld y plant yn dysgu cymaint am y Ffydd trwy hanes oedd, mae'n debyg, yn ddieithr i'r rhan fwyaf ohonynt.

Roedd y cwrs yng ngofal rhai o staff y Coleg, yn cynnwys rhai sydd yno ar flwyddyn gap ar hyn o bryd. Diolch yn fawr iawn i Owain, Meryl, Grace, Steffan ac



Arawn am eu gwaith caled a'u tystiolaeth glir i'r plant; ac am y gofal arbennig a gafodd y plant ganddynt dros y penwythnos. Diolch hefyd i'n gweithiwr ieuencid lleol, Andrew, ac i Non Llwyd a Rhian Tomos, dwy o famau Llanrug, am ddod yno gyda ni eleni eto i ofalu am y plant.

Bu'r plant yn nofio ym mhwl nofio'r Ganolfan Hamdden yn y dref ar y pŵn Sadwrn a chawsant wylwio ffilm fer nos Wener a ffilm lawn nos Sadwrn. Roedd y tywydd yn arbennig o dda hefyd, ac roedd digon o gyfle i fynd allan i chwarae ar dir y Coleg. Wedi dod adref, fe

sylweddolwyd ein bod wedi osgoi'r gwynt a'r glaw a'r oerni mawr a welodd Dyffryn Peris y dydd Sadwrn hwnnw!

Unwaith eto, diolch i bawb yn y Coleg am eu croeso cynnes.

JOHN PRITCHARD

Arddangosfa gan artist lleol

Arddangoswyd gwaith gan yr artist Meirion Ginsberg o Fethel yn Oriel Martin Tinney yn Nghaerdydd rhwng 9fed Mehefin a'r 2il o Orffennaf

Astudiodd Meirion yng Ngholeg Celf Caerdydd ac mae'n beintiwr dynamig sy'n cael ei ysbrydoli gan y cymeriadau yn ei fywyd bob dydd. Mae'n cyfuno ystod eang o ddylanwadau, o Francis Bacon i Norman Rockwell er mwyn creu gwaith hunangofiannol. Wrth ddisgrifio'r casgliad diweddaraf, dywed Meirion

'Crewyd y gwaith yma drwy broses hap a damwain. Canlyniad o ddileu ac ailosod paent yw'r peintiadau gorffenedig. Rwy'n creu marciau ffres a digymell na ellir eu cynllunio na'u ailadrodd. Mae hyn yn caniatáu bod y broses o beintio yn brofiad pleserus a chyffrous. Rwy'n ymchwilio artistiaid newydd yn gyson, gan ddod â'r holl ysbrydoliaeth at ei gilydd drwy'r broses o beintio.'



Lansiad Cyfrol Newydd Norman Closs

Cerddi'r Garreg Ateb

Difyr iawn oedd bod yn bresennol yng Nghanolfan Gymunedol Llanberis ar Fai 18 i lansio *Cerddi'r Garreg Ateb*. Roedd hi'n noson arbennig iawn a dim syndod gan mai Dei Tomos, y darlledwr Radio Cymru rhagorol oedd llywydd y noson. Cawsom ganddo gyflwyniad hynod o ddiddorol a meistrolgar gan gynnwys nifer o ddarlenniadau o'r gyfrol.

Yr un mor ddiddorol oedd cyfraniad Norman Closs ei hunan a'i ddewis yntau o blith ei waith. Un arall a gyfrannodd yn effeithiol at y noson oedd John Hugh Hughes, cyn-brifathro Ysgol Dolbadarn. Cafwyd ganddo sgwrs berthnasol iawn i gefndir yr achlysur. Bu ef, ymhlith eraill, yn frwd ei gefnogaeth i Norman Closs.

Cyflwynir y gyfrol fechan ganddo er cof am ei fam ei dad ac i'w deulu agos: Bet ei briod, Heulwen a Gwawr, y plantos am gefnogi taid. Cyfeiria hefyd at gyfraniad eraill, megis Deryl ac Eirys, Siop Bren Llanberis. Talwyd teyrnged arbennig i Hywel Evans am ei waith argraffu glân arferol.

Bydd holl elw'r gwerthiant yn mynd i Blas Pengwaith fu'n

gofalu'n annwyl iawn am fam Norman yn ei dyddiau olaf a hefyd y i ymdrech ardal Llanberis tuag at Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012.

*Gan Gron Elis o Bapur Bro
'Y Glannau'*

Myfyrion Pysgotwr

Tair 'pluen' rwy'n eu cynnig i'r D'warchen a Llyn Brenig, yr Wffta, Mulfran a'r Diawl Bach a'i ach, rhônt hwyl arbennig!

Lle 'nawr y confensiynol, defnyddiau plu naturiol... ceiliog chwiad, petris, corff sach a'r giach draddodiadol?

Beth dd'wedai yr hen feistri byd erwau pysg Eryri – Robin Rôl, Breimar, Dic, 'rhen If, a'u prif – Bob Jôs, o'n celfi?

Ond symud mae'r amseroedd ym mhob amryfal fydoedd! Nid dweud yr wyf na fyddai gêr 'rhen sêr, yn dal o'n dyfroedd!

Mae byd – fel gêr pysgota – (mae pob maes heddiw fel 'na...') yfory ddaw i blant ein plant yn welliant – a meithrinfa

Nid oes dim byd yn aros... aiff gwawr yn fachlud rhuddros, yr adladd gwyn â'n borfa las... ar ras, a 'fory'n echnos!

NORMAN CLOSS

LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, 14 Mehefin, aeth nifer dda o aelodau am sgowt o amgylch Caernarfon yng nghwmni'r amryddawn Emrys Llywelyn. Cyfarfu pawb yn brydlon wrth draed David Lloyd George a hynny ar noson braf. Yn ôl Emrys dylai pob taith o gwmpas y dref gychwyn o'r Maes. Bu newid mawr yn hanes y dref ers y dyddiau cynnar ond mae'r Maes yn dal i fod yn gyrchfan bwysig iawn. Yn ogystal â phorthmona anifeiliaid cynhelid ymrysonau cŵn a theirw a thalyrnau ceiliogod ar y Maes ar un cyfnod. Cynhelir y farchnad Sadyrnol wythnosol hyd heddiw. Gan ddilyn map 'Ty'd am Dro, Col' aethom heibio i'r Eglwys Leiaf yng ngwledydd Prydain, sef yr Eglwys Uniongred Ddwyreiniol sydd i'w gweld yn Nhan y Bont, o dan y Porth Mawr.

Yna, heibio'r Cloc at y Brif Fynedfa a'r Guild Hall gyda'i hatgofion melys i rai! Cyrraedd Stryd Pedwar a Chwech - yma mae'r dafarn hynaf a mwyaf diddorol, sef y Black Boy. Mae'n bosib fod enw'r stryd yn cyfeirio at y dyddiau pan fyddai morwyr yn lletya yno ac yn talu pedair ceiniog am hamoc a chwe cheiniog am wely. 'Y Blac Boi' oedd arfbais y gwerthwr baco. Yn ôl stori arall roedd bwi mawr du yn arfer arwain llongau drwy sianeli afon Menai. Mae'r adeilad yn perthyn i'r ail ganrif ar bymtheg ond mae'n bosib fod rhannau ohono yn dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar ddeg. O fewn hen dref gaerog Caernarfon mae Eglwys Santes Fair a darn ohoni yn rhan o furiau'r dref. Un o drysorau'r eglwys yw 'Ffenestr Jesse'. Yma y cychwynnwyd Coleg Santes Fair cyn symud i Fangor.

Wedi teithio heibio Plas Bowman, Porth yr Aur a 6 ac 8

Stryd Fawr, cyrraedd Stryd y Jêl. Yn ogystal â rheoli roedd cosbi yn rhan hanfodol o'r gyfundrefn estron yng Nghaernarfon. Ers yr oesoedd canol, lleolwyd y Llys a'r carchar ym Mhen Deitsh, mae'r adeiladau presennol wedi'u codi yn 1853 a 1863. Mae'r gyfraith wedi'i gweinyddu o'r fan hon ers dros 700 mlynedd. Y drws nesaf i'r llysoedd mae hen adeilad y carchar, sydd bellach yn rhan o swyddfeydd y Sir. Yr olaf i'w grogi yng Nghaernarfon oedd William Murphy a gosbwyd am ladd Gwen Elen Jones, ei gyn-gariad yn 1910.

Un o strydoedd mwyaf diddorol y dref yw Stryd y Plas, stryd o dai crefftwyr ar un adeg. Erbyn heddiw mae'n llawn siopau ac orielau ac yma mae adeilad y Farchnad. Ar un adeg roedd 14 o dafarnau ar y stryd hon yn unig.

Stryd ddifyr arall oedd Stryd Twll yn y Wal. Adeiladwyd nifer o dai bychain yn erbyn hen wal y dref. Mae nifer o dai bwyta a thri tŷ tafarn yno heddiw.

Daeth yn amser i ninnau gael tamaid i'w fwyta wedi taith hynod ddifyr ac addysgiadol. Yn disgwyl amdanom yn yr Aelwyd roedd 'bwffe' amheuthun wedi'i baratoi gan Bethanne a Judith Harding - cynnyrch cartref i gyd - yn saladau, cigoedd, pïtas, *quiche* a phwddinau cartref bendigedig.

Diolchodd y Llywydd, Menna Williams, i Emrys am noson hynod ddifyr ac i Bethanne a Judith am y wledd. Diolch hefyd i Gwenda a Bethanne am y trefniadau trylwyr.

Anfonwyd cofion annwyl at Olwen a Helen Parry a chydymdeimlwyd â Helen ac Ifan ar golli mab-yng-nghyfraith annwyl a gŵr annwyl i Gwenno.

Dymunwyd pob lwc i'r rhai

fydd yn cynrychioli'r gangen yn Sioe Llanelwedd. Enillwyr y raffl oedd Heulwen Evans a Mair Parry. Diolchir i'r Pwyllgor am dymor difyr ac amrywiol a gobeithir trefnu rhaglen yr un mor ddifyr erbyn y tymor nesaf. Bydd y gangen yn cyfarfod ar yr ail nos Fawrth ym Medi.

Gwyliau hapus i bawb.

BABI NEWYDD. Llongyfarchiadau mawr i Gwyn ac Elizabeth (Llanbedrog) ar enedigaeth Oliver William, brawd bach i Emily a Jessica, ac ŵyr newydd i Glyn a Lyn, Stad Talybont.

YSGOL GYNRADD

Llongyfarchiadau mawr, mawr i Tomi Llewelyn [Blwyddyn 2] a wnaeth gamp yn ddiweddar yn cipio nid un, ond dwy wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Abertawe ar Cylch. Roeddem mor falch o'i weld ar fore cynta'r cystadlu mor gartrefol ar lwyfan mor fawr, ac yn rhoi Ysgol Llanrug ar y map ar ddiwrnod cynta'r cystadlu. Daeth Tomi yn gyntaf yng nghystadleuaeth yr Unawd a'r Unawd Cerdd Dant i ddisgyblion Bl 2 ac iau. Da iawn Tomi!

Bu disgyblion Blwyddyn 5 yn mwynhau perfformiad gwahanol iawn gan gwmni'r Fran Wen yng nghoedwig Glynllifon yn ddiweddar. Buont yn dilyn perfformiad theatrig yn dwyn y teitl Swyn y Coed. Y goedwig yng Nglynllifon oedd llwyfan y ddrama, ac wedyn bu'r plant yn mwynhau gweithdai amrywiol.

Daeth tîm pêl-rwyd genethod Blwyddyn 3 a 4 yn ail yng nghystadleuaeth Eco'r Wyddfa. Llongyfarchiadau i'r tîm a diolch i Miss Catrin Jones am hyfforddi.

Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ar ymweliad i'r gadeirlan ym Mangor. Cawsant eu tywys gan y Canon Tegid Roberts o gwmpas y gadeirlan a dysgu am ei hanes fel sefydliad.

Llongyfarchiadau i bawb a

ddaeth yn fuddugol ym mabolgampau rhedeg yr ysgol.

Cynhaliwyd mabolgampau'r Urdd ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen. Llongyfarchiadau i dimau ras gyfnewid bechgyn a genethod Blwyddoedd 3 a 4, i dîm ras gyfnewid genethod Blwyddyn 5 a 6 a ddaeth yn gyntaf, ac i Ella Owen [Blwyddyn 4] Lisa Williams [Blwyddyn 4] a Ria le bon Owen [Blwyddyn 6] ar ddod yn gyntaf yn y rasys rhedeg. Diolch i Mr Wyn Griffith am hyfforddi. Bydd y timau a'r unigolion yn mynd ymlaen i'r cymal nesaf. Dymunwn yn dda iddynt.

Bu plant y Dosbarth Derbyn ar ymweliad â Fferm Plas Tirion lle y cawsant groeso, a mwynhau eu hunain yn fawr!

PROFEDIGAETHAU

Yn 91 mlwydd oed bu farw Mrs Mari Jones, gynt o Lanberis. Bu yn trigo yn Hafan Elan am amser i fod yn nes at ei merch, Rhiannon. Cafodd gyfnod yng Nghartref y Foelas hefyd. Cydymdeimlwn yn arw â Rhiannon a Merfyn, Clawdd Newydd, ynghyd â'r teulu estynedig, yn eu colled. Derbyniodd ofal caredig iawn ganddynt i gyd.

Yn 75 mlwydd oed bu farw Gwyndaf Williams, Arwelfa, Bryn Moelyn, yn dilyn gwaeledd hir iawn. Derbyniodd ofal caredig a gofalus gan Meinir a'r plant, Ian, David, Glyn a Mark a'u teuluoedd hwythau, Eirian, Chris a'r hogiau a'u ffrindiau triw hefyd. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i chwi i gyd.

DIOLCHIADAU

DYMUNA Mrs Megan Axon, 13 Hafan Elan, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ôl llawdriniaeth i'w phen-glin yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn.

Yn yr un modd fe ddymuna Rhiannon a Merfyn, Clawdd Newydd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a

ARVONIA




- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

dderbyniwyd yn dilyn marwolaeth Mrs Mair Jones. Dymunant ddiolch i'r Canon Tegid Roberts; Gwynfor Jones o E. W. Pritchard, Ymgymeryr, Llanberis; Dr Munro, yr organydd, ac i Gartref y Foelas am y gofal caredig. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Meinir Williams, Arwelfa, Bryn Moelyn, a'r teulu ddiolch o galon i bawb a fu'n gefn iddynt ar ôl eu profedigaeth ddiweddar a golli Gwynnaf. Diolch hefyd i bawb am y llu cardiau ac ymweliadau a'u rhoddion hael tuag at Hafan Menai. Diolch hefyd i'r Parchedigion Olaf Davies, John Lewis a Jim Clarke am eu gwasanaeth ac i Dylan Griffiths (Ymgymeryr), Tros y Waen, Penisarwaun am ei waith a'i drefniadau trylwyr.

Hefyd fe ddymuna Sharon Humphreys (Siop Trin Gwallt Elaine) ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb o'i chwsmeriaid, o Lanrug a'r ardal, am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd yn dilyn colli Ian. Ar amser mor anodd, gwerthfawrogwyd yr holl gardiau a'r galwadau ffôn a phersonol, bu yn gefn mawr iddi. Diolch yn arbennig i Elaine a'r staff am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth hynod o garedig. Derbyniwyd swm anrhydeddus tuag at Ward Alaw - diolch o galon.

BRYSIWCH WELLA. Braf iawn ydi deall fod Mrs Olwen Hughes, Eithinog, Afon Rhos, wedi dod adref o'r Ysbyty yn dilyn llawdriniaeth. Brysiwch wella.

DIOLCHIADAU. Hoffai Dafydd Roberts, Dwyrdd, Glanffynnon, ddiolch i'r cyfeillion a charedigion a fu o gymorth iddo pan gymerwyd ef yn sâl yn yr Amlosgfa Bangor yn ddiweddar, ac i bawb wnaeth ymholiadau i ganlyn hynny. Diolch yn fawr.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant mis Mai oedd: Mrs S. Williams, Glyn Afon; Mrs M. Roberts, 7 Afon Rhos; Mrs B. Roberts, Glanfa.

PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb Cant mis Mehefin oedd: Mair Parry; Gwyn Hefin Jones. **DIOLCH.** Dymuna Olwen Hughes, 14 Afon Rhos, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr ymweliadau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd yn ddiweddar ar ôl y llaw-driniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr i bawb.

CLWB CANT. Enillwyr mis Mehefin: Mrs G. Thomas, Gwenallt; Mrs E. Roberts, 3 Bryn Moelyn; Mrs M. Davies, Bod Awel.

Cefnogwch ein hysbysebwy



LLONGYFARCHIADAU i Elaine Alaw, Ffordd yr Orsaf, am ddod yn ail mewn cystadleuaeth Marchogaeth yn yr Wyddgrug.

DIOLCH. Dymuna Ann Jones, 36 Glanffynnon, ddiolch o galon i bawb am yr holl anrhegion, cardiau a dymuniadau da ar achlysur ei phen-blwydd 'arbennig' yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r holl deulu a ffrindiau fu'n gyfrifol am drefnu'r dathliadau wnaeth hwn yn ben-blwydd i'w gofio. Diolch yn fawr.

ENILLWYR PÊL BONWS - APÊL EISTEDDFOD YR URDD 2012

Mai 28 - Rhif 31- Eryllt Llwyd, Y Goedlan

Mehefin 4 - Rhif 27 - Rhodri Llwyd, Y Goedlan

Mehefin 11- Rhif 26 - Sian Williams, Cartref

Mehefin 18 - Rhif 31 - Eryllt Llwyd, Y Goedlan

Diolch i bawb sy'n cefnogi'r fenter.

CAPEL Y RHOS

Dyma'r oedfaon am fis Gorffennaf

Gorffennaf 3 - Y gweinidog - y Parch. Marcus Robinson.

Gweinyddir y Cymun Gorffennaf 10 - Y Parch. W.R. Williams

Gorffennaf 17 - Y Parch. Marcus Robinson

Gorffennaf 24 - Dr. Tudor Ellis

Gorffennaf 31 - Y Parch. Elwyn Jones

Llongyfarchiadau

Pleser yw llongyfarch Heledd Mair Jones o Brestatyn ar ei llwyddiant yn ennill gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Mae Heledd yn ferch i'r Parch Brian a Mrs Helena Jones ac yn wyres i Mr a Mrs Alf a Mai Parry 2 Bryn Heli. Bydd Heledd yn parhau â'i hastudiaethau ym Mhrifysgol Abertawe ac rydym yn dymuno pob llwyddiant iddi.

Taith y Gerddi



Wedi cawod fygythiol ben bore cafwyd diwrnod hyfryd ar gyfer Taith y Gerddi ym mhentref Llanrug ar Fehefin 11. Daith nifer dda i grwydro o ardd i ardd i fwynhau 'r gerddi lliwgar, prynu amrywiol nwyddau a chael cyfle i gymdeithasu. Trosglwyddwyd y swm sylweddol o £837 i bwyllgor Apel Eisteddfod yr Urdd Eryri (Llanrug a Chwm y Glo) ac mae'r trefnwyr yn dymuno diolch i bawb am bob cefnogaeth gafwyd i wneud y diwrnod yn un mor llwyddianus.

Taith o Garej i Garej

Yn dilyn llwyddiant Taith y Gerddi rydym yn ystyried cynnal diwrnod Taith o Garej i Garej. Y syniad yw cael nifer o breswylwyr y pentref i agor eu garej a chael bwrdd gwerthu yno ar gyfer nwyddau megis bric a brac, teganau a llyfrau. Byddai'r diwrnod yn cael ei gynnal ym Mis Medi wedi i bawb gael digon o gyfle i glirio a chasglu dros yr Haf. Dowch gyda'ch ymateb i Mary Roberts (01286675605 neu mary@parabl.com) ac fe drefnwn ddiwrnod hwyliog o glirio a chodi arian eto tuag at darged yr ardal i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri 2012.

CASTELL NEIDIO

ar gael i'w logi

Cost: £50

Yr holl elw tuag at gronfa Carnifal Pentref Llanrug. Mae'r sawl sy'n dymuno ei logi yn gyfrifol am ei gasglu a'i ddychwelyd.

Rhifau cyswllt:

Jennie: 07825332814 neu Sioned: 01286 676641

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus, Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!

Pryd i Bawb

Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad Bwffe blasus o safon



- Priodas •
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Te angladd
- Baged Picnic
- Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon

Ffôn: 01286 673190

Symudol: 07774 925502

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

CYMANFA'R ANNIBYNWYR.

Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yn Neuadd Gymuned Penisarwaun. Y thema eleni oedd 'Y Damhegion'. Cymerwyd y rhan agoriadol gan ferched Ebeneser a chymerwyd rhan gan blant ysgolion Sul Bosra, Eebeser a Chapel Coch a chafwyd gwaith clodwiw ganddynt oll.

Y cyfeilyddion oedd Mrs Falmal Pritchard a Mr Gareth Jones. Diolchwyd i bawb am eu gwaith tuag at lwyddiant y Gymanfa ac yn arbennig y plant, gan y Parchedig John Pritchard. Yn dilyn y Gymanfa roedd gwledd wedi ei pharatoi a phleser oedd cael cymdeithasu ymhlith ein gilydd. Diolch i bawb am y wledd a'r croeso.

DIOLCH. Dymuna Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch, ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau ymhell ac agos am y llu cardiau, anrhegion, arian a'r blodau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.

CROESO ADREF i Alice, Ty'n Gerddi Uchaf. Mae Alice yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Bangor ac yn astudio ieithoedd a bu am flwyddyn yn yr Eidal yn astudio Eidaleg. Pob dymuniad da iddi y tymor nesaf yn ôl ym Mangor.

DIWEDD TYMOR. Ein dymuniadau gorau i bawb sydd yn gadael yr ysgol neu goleg ddiwedd y tymor ac yn dechrau mewn swydd am y tro cyntaf a rhai fydd yn dechrau mewn coleg y tymor nesaf.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

CYDYMDEIMLAD.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Glenda Roberts, 3 Tai Orwig, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, y ddiweddar Peri Evans, Hafod Olau, Deiniolen, ar Fai 20fed yn 86 mlwydd oed. Rydym yn cofio'r teulu yn eu blynyddoedd cynnar yn byw yn Ceris a Thy'n Twll. Roedd Peri a'i phriod yn cymryd rhan brwdfrydig yn y gymdeithas leol ac am gyfnod yn ofalwyr adeiladau yr Eglwys Bresbyteriaidd.

COFION. Anfonwn gofion cynnes at Dilys Baylis, (Llain Hir gynt) sydd yn preswyllo ers peth amser ym Mhlas Pengwaith Llanberis, a'n llongyfarchiadau iddi ar ddathlu ei phen-blwydd ar Fehefin 18fed yn 99 mlwydd oed. Ond roedd yn ofidus gennym ddeall am y brofedigaeth ddaeth i'w rhan ar Fehefin 11eg pan fu farw ei mab Tim yn 73 mlwydd oed. Roedd ef wedi'i fagu, yn ei ddyddiau cynnar, yn

Llain Hir ac mae gan ei gyfoedion yn lleol nifer o atgofion am ddyddiau ieuencid yn ei gwmni.

DYMUNA Dilys Baylis a'r teulu ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 99 oed a hefyd am y cydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt fel teulu yn eu profedigaeth o golli Tim.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Y wraig wadd yng nghyfarfod y Sefydliad nos Iau, Mehefin 16eg, oedd Annette Bryn Parri, Deiniolen. Bu'n trafod hanes ei llyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar a'r gerddoriaeth oedd wedi dylanwadu arni. I gloi noson bleserus perfformiodd nifer o ddarnau a fwynhawyd gan bawb. Edrychir ymlaen i'r noson Bowlio Deg ar Fehefin 29ain a'r Ffair Haf yng Ngerddi Seiont, Gorffennaf 9fed pryd y bydd gan yr aelodau stondin 'Y Patch Mefus'.

NOSON HANES LLEOL LLANRUG



Cynhelir noson Hanes Lleol Llanrug yn yr Ysgol Gynradd ar Nos Fawrth, 12 Gorffennaf am 7 o'r gloch. Mae'r achlysur yn rhan o waith casglu a chreu archif ar-lein yr ysgol a phrosiect casglu hen luniau o fro yr Eco. Bydd cyfle i weld:

- Arddangosfa o hen luniau o Lanrug;
- Arddangosfa o Fap 'Troedio Llwybrau Llanrug';
- Hen ffilmiau o rheilffordd y Chwarel yn Llanrug;
- Sgyrsiau hwyliog.

Hefyd rydym yn apelio ar i chi fynd ati i chwilota am hen luniau sydd gennych ar gyfer prosiect hanes yr Ysgol a'r Eco i greu archif. Yn arbennig, rydym yn chwilota am hen luniau o'r 50au, 60au, 70au a'r 80au (yn ogystal â rhai hŷn, wrth gwrs) i'w sganio ar y noson (felly byddwch yn mynd â'r hen luniau gartref).

Felly rydym yn chwilota am:

- * hen luniau o Lanrug i'w sganio;
- * hen negatïfs o Lanrug i'w sganio;
- * hen arteffactau diddorol i dynnu eu lluniau.

(Cofiwch, bydd croeso i chi ddod â deunydd o Tan y Coed, Pontrug ac Chwm y Glo hefyd, wrth gwrs).

Hefyd bydd modd i ni sganio 'NEGATIVES'. Felly os oes unrhyw hen lun neu hyd yn oed ARTEFFACT diddorol yn eich eiddo mewn bocs yn hel llwch yn yr atig neu beth bynnag, dewch â nhw. Bydd y plant yno yn barod i'ch helpu ac i wrando ar unrhyw hen hanesion hefyd.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Robin Williams, Ysgol Gynradd Llanrug ar 01286 674905; Gareth Roberts (01286 872462); neu Gwyndaf Hughes, ffotograffydd yr Eco gyda unrhyw gwestiwn ynglŷn â sganio lluniau a negatives.

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

Y GLEC

CYLCHGRAWN NEWYDD I GYNGANEDDWYR

Cyhoeddi'r rhifyn cyntaf
Palas Pinc, Felinheli,
nos Fawrth, Gorff. 5ed,
am 7:00

Yno i'ch difyrru bydd:
Bob Delyn Bychan-Bach,
Geraint Løvgreen, Mei Mac,
Hywel Griffiths
ac Eurig Salisbury

CROESO I BAWB

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llunopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYL • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

PEN-BLWYDD.

longyfarchiadau i Mrs Megan Morris, Minffordd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 96 mlwydd oed yn ystod y mis. Bu iddi fwynhau yr achlysur yn fawr iawn gyda'r plant a'r teulu o'i chwmpas. Gobeithio y cewch nerth ac iechyd i fwynhau y flwyddyn sydd o'ch blaen.

ADREF O'R YSBYTY. Drwg oedd gennym ddeall fod Mrs Eileen Davies, 10 Bro Elidir, wedi gorfod mynd i Ysbyty Gwynedd i dderbyn llawdriniaeth, ond braf yw cael dweud ei bod adref erbyn hyn ac yn gwella. Dymunwn fel ardal adferiad iechyd llwyr iddi. Brysiwch wella, Eileen.

CYMORTH CRISTNOGOL. Diolch i'r rhai yn yr ardal a gyfrannodd mor dda tuag at Gymorth Cristnogol eleni eto. Diolch yn fawr iawn.

DIWEDD TYMOR. Wel, y mae diwedd tymor yr arholiadau yn y colegau a'r ysgol yn y golwg yn awr ac yr wyf yn sicr fod yr ieuenctid yn hynod o falch o weld yr arholiadau o'u hôl. Carem fel ardal ddymuno yn dda i bawb oedd yn eistedd yr arholiadau a gobeithio am ganlyniadau da i chi i gyd ac y cewch fynd ymlaen â'ch addysg fel ag yr oeddych wedi edrych ymlaen i'w wneud. Gwyliau hapus i

chwi i gyd a gobeithio am dywydd dipyn gwell a dipyn o haul. Pob lwc a hwyl i bawb.

CYFARFOD PREGETHU. Cafwyd Cyfarfod Pregethu'r Sulgwyn llwyddiannus iawn eto eleni yn Sardis. Yn y prynhawn daeth cynulleidfafa dda iawn ynghyd er nad oedd y tywydd yn ffafriol iawn. Y cennad gwadd oedd y Parchedig Iorwerth Jones Owen, Caernarfon. Mae angen canmol swyddogion Sardis ar lwyddiant y Cyfarfod Pregethu bob Sulgwyn ers blyneddau bellach. Daliwch ati.

DIOLCH. Dymuna teulu'r ddiweddar Gwenda Awen Roberts, merch hynaf teulu Creigle gynt, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod y cyfnod anodd a thrist o golli Gwenda. Diolch am y galwadau ffôn, y llu cardiau a'r cyfraniadau hael a ddaeth i law. Mae cyfanswm o £1,300 wedi caei ei rannu rhwng Hospis Tŷ'r Eos, Wrecsam ac Eglwys y Drindod, Gwersyllt.

Cofio Gwenda

Fel gwraig a mam, chwaer a ffrind Gadewaist lu atgofion, Dy gariad atom ni a Duw A ddaeth i gyd o'th galon.

IRFON

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)



DIOLCHIADAU

Dymuna Meirwen Jones a Jean Thomas (Chwiorydd) ddiolch am y rhoddion o £216.20 a dderbyniwyd er tuag at elusen Cleft Palate Ysbyty Alder Hay er cof am M.M, Cefn Coch.

DYMUNA Derek ac Eleanor, 7 Ffordd Deiniol, ddiolch o galon am yr holl gardiau ac arian a dderbyniwyd er cof am ei brawd annwyl, Eric Wyn o Gaernarfon. Yr elw yn mynd at Ward Alaw. **CYMORTH CRISTNOGOL.** Diolch i'r casglyddion fu o ddrws i ddrws yn casglu yn Neiniolen a Dinorwig yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol. Y casgliad oedd £700.00. Hefyd, diolch i bawb a gyfrannodd. **LLONGYFARCHIADAU** i Gwenllian Ann Owen, 7 Tai Caradog, ar gael Gradd BA Cyd-Anrhydedd 2.2. Da iawn chdi - rydym mor falch, Mam, Dad a'r teulu.

NEWYDDION YSGOL B R Y N R E F A I L . Llongyfarchiadau mawr i Daniel Ellis ac Anna George ar ennill ysgoloriaeth cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o £1,500 yr un. Gobeithia Daniel fynd i Gaerdydd y flwyddyn hon i astudio cwrs gradd LLB yn y Gyfraith. Yn yr un modd, gobeithia Anna hefyd fynd i Gaerdydd i astudio cwrs gradd LLB yn y Gyfraith a'r Gymraeg. Pob hwyl i'r ddau ohonynt.

PERI EVANS. Dymuna Iorwerth a'r teulu ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt o golli un mor annwyl. Diolch am y llu cardiau, y galwadau ffôn a phob ymweliad a'r cyfraniadau hael tuag at Gapel Ebeneser.

Diolch yn arbennig i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth teimladwy ac i John B. Jones, yr organydd. Diolch i staff Caredig (gofal cartref) am eu gofal ohoni. Hefyd diolch i Gwynfor o E.W. Pritchard, Llanberis am eu trefniadau trylwyr. Diolch yn fawr i bawb. **LLONGYFARCHIADAU** i Elin Worth o Ysgol Gwaun Gynfi ar ennill cystadleuaeth dylunio logo ar gyfer prosiect ceidwad chwarae - prosiect newydd sydd wedi cychwyn yn ddiweddar yng ngogledd-orllewin Cymru.

Roedd plant ysgolion trwy Gonwy, Ynys Môn a Gwynedd wedi cael gwahoddiad i gystadlu gan gyfarwyddwr y prosiect ac, ar ôl beirniadu yr holl ddyluniadau, logo Elin oedd yr enillydd. Cafodd Elin wahoddiad i Fae Colwyn i gyfarfod pawb o'r tîm prosiect a chael tynnu lluniau gyda phawb a phopeth.

Bydd y logo i'w weld ar ddillad pob ceidwad a cherbyd y prosiect fydd yn mynychu gwahanol gymunedau yn ystod y tair blynedd nesaf.

Da iawn, Elin. Dal ati! **CYDYMDEIMLWN** yn ddiffuant â'r canlynol yn eu profedigaeth o golli eu hanwyliaid:

Mr Iorwerth Evans a'r teulu oll yn dilyn marwolaeth Mrs Peri Evans, 5 Hafod Oleu;

Mrs Joan Parry, Cheryl, David a'r teulu i gyd yn dilyn marwolaeth Mr Cledwyn Parry. **HWYL A SGWRS.** Mae criw o ferched y pentref yn trefnu nosweithiau cymdeithasol yn Nhafarn y Tarw a fydd yn cyfarfod bob nos Fawrth am 7.30.

Bydd y cyfarfod cyntaf ar 5 Gorffennaf. Croeso i unrhyw un dros 18 ymuno am sgwrs a hwyl.



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth

8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE

01286-672076

neu

70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR

01248-372948

williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones

Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AC** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth

8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE

01286-672076

neu

70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR

01248-372948

alunffred.jones@cymru.gov.uk

CYNLLUNIO NEU GYNLLWYNIO? DYFODOL CYMREICTOD

Annwyl Ddarllenwyr, Tybed faint wyddoch chi am waith y Cynulliad yn y gogledd? Ydych chi'n frwd dros y corff arbennig hwn, a aned i hybu ac i swcro ein gwlad a'i phobol?

Doedd neb yn falchach na fi pan fathwyd llywodraeth annibynnol i Gymru.

Ond heddiw rwy'n sgwennu i'ch rhybuddio chi fod criw CF99 yn y brifddinas yn trio rheibio glasdir y gogledd ac wrthi'n lladd ein diwylliant.

Wna'i ddechrau efo'r West Cheshire Plan fel y gelwid ef.

Cynllun cudd oedd hwn i greu rhanbarth newydd yn Nwyrain Cymru efo 20,000 o dai newydd ar yr ochr Gymraeg. Roedd Cymru a Lloegr i weithio ar y cyd i alluogi miloedd ar filoedd o Saeson i lifo i'r fro. Mae'n amlwg fod y Cynulliad yn berffaith hapus efo'r strategaeth hon ond fe orchfygwyd y cynllun gan filoedd o bobol leol yn barod i ymladd dros eu bro dan faner Gymreig: Deffro'r Ddraig. Er i'r Cynulliad ddiarddel y cynllun ar Ebrill 1, 2011, mae llawer o'r tai wedi eu hadeiladu eisoes.

Yn anffodus, mae'r clwy wedi lledu ar hyd yr arfordir erbyn hyn.

Dan fantell y Local Development Plans mae'r Cynulliad eisiau gweld bron i 2,000 o dai newydd ym Modelwyddan, ar wastatir enwog Rhuddlan, a hefyd llu o dai ym Mhenmaenmawr a Llanfairfechan, ac mae marina a swp o dai ar y gweill yn Newry yng Nghaerdydd.

Er fod sôn am dai rhad i bobol ifanc lleol cewch fod yn hollol sicr mai pitw iawn fydd y rhain. Na, pobol estron fydd yn dod i fyw ar y stadau mawr newydd 'ma.

Does gen i ddim byd o gwbl yn erbyn pobol estron, fe fydda i'n rhoi croeso iddyn nhw fel pawb arall. Ond cyn i'r Cymry

a'u diwylliant ddiflannu ar yr arfordir, oni ddylai'r Cynulliad fod ar flaen y gad yn y frwydr i achub y genedl?

Yn lle creu strategaeth i adeiladu tai a fflatiau destlus ar gyfer ein ieuenctid mae'r Cynulliad yn awyddus i weld miloedd o dai drud dosbarth canol yn codi fel madarch ar hyd a lled y wlad; nid Cymry fydd yn byw ynddynt, fe wŷr pawb hynny.

Ond o le daeth y strategaeth hon?

Does neb yn hollol sicr, ond cyn i Plaid Cymru a'r Toriaid siarad yn ei herbyn mae'n debyg mai'r Blaid Lafur yw'r injan sy'n gyrru'r trê. Dywed rhai fod y llyffant llwfr, John Prescott (a aned ym Mhrestatyn) wedi tanio'r injan yn y lle cyntaf. Nuff said, chwedl y Sais.

Yn 2002, cerddais reit o amgylch Cymru yn ei chyfanrwydd, mil o filltiroedd ar droed. Be welais i oedd gwlad brydferth iawn, un o'r prydferthaf yn y byd. Rwyf wedi cerdded ar ei thraws hi naw gwaith ers hynny ac wedi clywed yr iaith yn diflannu. Dydw i ddim eisiau cludo newyddion drwg, ond fe wyddoch cystal â minnau fod y cymylau yn duo, dim ots be ddywed yr ystadegau. Aeth y genedl yn ddistaw. Pethau dof 'da ni rŵan, te? Mae'r distawrwydd na'n poeni dyn. Ai distawrwydd gorffenedig yw o, ta'r math o ddistawrwydd sy'n dod cyn storm?

Yn ystod fis Mai fe anfonais ddeiseb i bob cynghorydd sir yng Ngogledd Cymru. Dyma oedd byrdwn fy neges:

Prif adnoddau Cymru yw ei phrydferthwch a'i phobl; ei harddwch a'i diwylliant unigryw.

Bydd stadau enfawr ar lastir yr arfordir yn fygythiad uniongyrchol i'r fuchedd Gymreig, a harddwch y wlad.

Mae'r fro eisoes yn gwegian dan faich tyfiant aruthrol sy'n

newid ei chymeriad; byddai mwy o stadau enfawr yn tagu'r hen fuchedd gynhenid ac yn creu dormitory fawr ar gyfer pobol sy'n gweithio ar y gororau neu tu hwnt.

Dichon fod y cynlluniau newydd, sy'n cael eu gyrru ymlaen gan y Cynulliad, yn nwylo swyddogion di-Gymraeg sydd heb wreiddiau yn y fro, ac sydd heb unrhyw gydymdeimlad a'r Cymry, na'r henwlad chwaith.

Be glywaf i yw pobol yn gofyn am waith sy'n debyg o barhau, a rhywle eitha rhad i fyw. Does na ddim digon o waith fel ag y mae hi i'r bobol lleol.

Fe wyddom yn barod fod llu o bobol wedi symud i Gymru i fwynhau ei phrydferthwch a'i distawrwydd, ond bydd adeiladu miloedd o dai yma ar eu cyfer yn ail-greu y blerwch cymdeithasol sydd wedi eu gyrru nhw yma yn y lle cyntaf.

Diwedd y gân fyddai tai ar hyd y ffordd o Gaer i Fangor, heb gae glas i'w weld drwy gydol y siwrne.

Dylai fod y Cynulliad yn ein hamddiffyn, nid ein chwalu. Mae Cymreictod y fro dan fygythiad enbyd; byddai llif newydd o bobol estron yn tagu'r diwylliant Cymraeg yma unwaith ac am byth.

Dyma i chi enghraifft: mae 'na ugeiniau o dai gwag yn Llanfairfechan, wedi eu prynu gan estroniaid fel buddsoddiad, tra fo cynllun rŵan i adeiladu stad enfawr ar gae hardd ar ffin y

pentre, cae sy'n creu golau a harddwch i'r trigolion.

A druan o wastadedd enwog Rhuddlan; môr o dai fydd hwnnw cyn bo hir.

Cofiwch fod poblogaeth y byd ar fin cyrraedd lefel beryglus, gan achosi prisiau uchel am fwyd a thanwydd; oni ddylem ninnau hefyd wneud ein rhan i roi caead ar dyfiant dynol ryw? Mae natur dan y lach, efo sawl math o aderyn ac anifail wedi diflannu am byth. Wnaiff creu math o Gilgwri arall ar hyd yr arfordir wneud dim i achub byd natur.

Ychydig iawn o amser gaed i wrthwynebu'r cynlluniau 'ma, sy'n peri i rhywun feddwl fod y Cynulliad eisiau eu pasio nhw heb i neb wybod amdanynt. Ond rhaid i ni roi pen ar eu planiau gorffwyll nhw. Da chi, gwnewch eich gorau glas i gadw Cymru'n wlad braf efo diwylliant a gobaith.

Gofynnwch i'ch AM: beth yw ei safbwynt parthed y cynlluniau hyn?

Cofiwch, os mynnir y stadau mawr yma yn Ninbych a Chonwy eleni, fe welwch gynlluniau tebyg yn eich bro chi hefyd cyn bo hir.

Cofiwch Dryweryn.

LLOYD JONES (awdur Y Dŵr)
Abergwyngregyn.

Cefnogwyd gan: Siân Melangell Dafydd, Myrddin ap Dafydd, Angharad Elen, Robat Gruffudd, Gwion Hallam, Angharad Price, Francesca Rhydderch, John Rowlands, Angharad Tomos.

O'R DIWEDD!!

Llongyfarchiadau calonnog i Gyngor Gwynedd am sefydlu llwybr ceffyl ar yr hen lôn o amgylch Craig yr Undeb. Mae gwaith adfer wyneb yr hen lôn, trwsio waliau a gosod ffensys wedi ei gwblhau ers o leiaf dair blynedd, ond dim ond cerddwyr oedd yn gallu defnyddio'r llwybr. Doedd dim posibl mynd â beic na phram ar ei hyd am mai camfa yn unig oedd yr unig ddull o ddod allan ym Mhen Llyn.

Mae sefydlu llwybr ceffyl yn golygu y gall beicwyr ei ddefnyddio'n gyfreithlon o hyn ymlaen - ac y bydd giât ar agor y ddau ben, a bydd hynny'n golygu y gall rhieni â phram gerdded trwedd hefyd. Gwell hwyr na hwyrach, a gwell hwyrach na byth yn yr achos hwn!

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfrngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

BETHEL

Geraint Ellis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

PWYLLGOR EISTEDDFOD BETHEL. Dyddiadau ar gyfer eich dyddiaduron.

• Bydd cyfarfod dewis testunau cystadlaethau cerdd a llefaru yn cael ei gynnal nos Iau, 23.6.2011 yn Festri Capel Cysegr am 7pm.

• Ar Orffennaf y 12fed bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor - eto yn Festri Capel Cysegr am 7pm.

• Nodir hefyd bod dyddiad cynnal Noson Goffi i gasglu enwau ar gyfer cystadlaethau partion a rhannu testunau hefyd wedi ei bennu fel Medi'r 9fed 2011. (Festri Capel Cysegr).

DIOLCH. Dymuna Mair Jones, Arddol, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau yn Bethel a Deiniolen am eu hymweliadau, galwadau ffôn a llu o gardiau ac hefyd i'r gweinidog, Y Parch John Pritchard, ar ôl ei arhosiad yn Ysbyty Eryri.

DYMUNA Liz Hughes, Bethlyn, ddiolch i bawb am yr holl alwadau ffôn, ymweliadau, cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd yn ddiweddar yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl

DYMUNA ffrindiau Manon Williams, Yr Efail, y gorau iddi ar ddechrau ei gyrfa ym mis Gorffennaf fel meddyg yn Ysbyty Gwynedd.

APÊL EISTEDDFOD YR URDD ERYRI 2012.

CYNHALIWDYD taith gerdded i gasglu arian i gronfa Eisteddfod yr Urdd 2012 yn croesi Pont Charlie nos Lun 6ed Mehefin. Cafwyd taith ddifyr iawn gan orffen gyda lluniaeth yn y festri Cysegr. Diolch o galon i Bet a Seiriol Owen am drefnu'r daith.

Nos Wener, ar noson hyfryd o haf cafwyd Mabolgiamocs llawn hwyl i blant y pentref. Unwaith eto, diolch i bawb am eu cefnogaeth. Diolch yn arbennig i Cled Jones Swyddfa Bost am ei haelioni arferol.

DIOLCH. Dymuna Glenys,

Llwyn Eithin, ddiolch yn ddiffuant i'w chyfeillion am yr holl gardiau, anrhegion, blodau, a rhoddion ariannol er budd Band Tredegar ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

CYNGERDD MANON ELWYN. Nos Fawrth, Mai 10, cynhaliwyd cyngerdd mawreddog o ddoniau lleol yn Ysgol Brynrefail. Pwrpas y cyngerdd oedd codi arian ar gyfer taith Manon Elwyn i Batagonia yn yr Hydref. Cafwyd eitemau graenus gan Bronwen Price a Sioned Webb, Siôn Elwyn a Lois Eifion, Siân ac Emyr Gibson, Gwyn Owen, Piantel (sef Annette Bryn Parry a Dylan Cernyw), disgyblion Ysgol Gynradd Bethel, Elfed Morgan Morris, Lleisiau'r Mignedd, a Seindorf Arian Ieuenctid Deiniolen. Cyflwynwyd yr eitemau'n fedrus gan y digrifwr, Mici Plwm.

Codwyd swm anrhydeddus o arian ar y noson tuag at gronfa Manon ac fe hoffai ddiolch o waelod calon i bob un o'r artistiaid a gymerodd ran ac am roi o'u hamser a'u doniau yn rhad ac am ddim. Mae diolch Manon hefyd yn ddyledus i Mrs Lowri Roberts a Mr Emyr Jones (Ysgol Brynrefail) am eu cefnogaeth i godi arian ar hyd y flwyddyn.

Hoffai ddiolch hefyd i Brifathro Ysgol Brynrefail, Mr Eifion Jones, am gael defnyddio neuadd yr ysgol. At hynny, mae'n hynod ddiolchgar i bawb yn yr ardal - a'r tu hwnt - sydd wedi rhoi rhoddion ariannol iddi tuag at ei chostau.

MERCHED Y WAWR. Mwynhaodd aelodau y gangen swper blasus iawn ym Mwyty Llew, Dinas Dinlle, ar 9 Mehefin i gloi eu gweithgareddau am y tymor yma.

Croesawodd y llywydd,



Rhian Hughes, bawb at ei gilydd gan estyn croeso arbennig i Gwyneth Jones oedd wedi gwella digon i ddod gyda ni ar ôl y llawdriniaeth i'w phen-glin.

Cytunodd Glenys Griffiths ac Eirlys Williams i barhau i gynrychioli'r gangen ar Bwyllgor yr Anabl ac yn yr un modd cytunodd Mair Read i barhau i'n cynrychioli ar Bwyllgor y Dysgwyr. Diolchwyd iddynt yn galonog iawn am eu parodrwydd i ymgymryd â'r gwaith.

Diolchwyd yn arbennig i Lis Evans, Pen Parc, ac Eirlys Sharpe am eu gwaith caled yn casglu enwau caeau ac ati ar gyfer llyfr fydd yn cael ei gyhoeddi gan y Mudiad yn genedlaethol y flwyddyn nesaf.

Yn anffodus methwyd â chael cynrychiolwyr ar gyfer y pwyllgor Celf a Chrefft a'r pwyllgor Chwaraeon.

Gwaith pleserus iawn oedd gennym wrth ymuno i ganu pen-blwydd hapus iawn i Glenys Griffiths fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar 20 Mehefin.

Braf oedd cael llongyfarch Lois Bee, wyres Ann Elis, am ennill tlws am y gwaith tecstilau gorau yn Eisteddfod yr Urdd yn Abertawe.

Diolchwyd i'r swyddogion ac

aelodau o'r pwyllgor am eu gwaith caled gyda'r amrywiol weithgareddau eleni, ond aeth y diolch mwyaf at yr aelodau yn gyffredinol am eu cyfeillgarwch a'u cefnogaeth yn y cyfarfodydd. Dymunwyd pob llwyddiant i'r swyddogion newydd gan edrych ymlaen at flwyddyn hapus arall yng nghwmni ein gilydd. Trosglwyddodd Rhian y llywyddiaeth i ddwylo medrus ein llywydd newydd, Rita Williams, ac yna diolchodd Rita i Rhian am ei chyfraniad arbennig hi i lwyddiant y flwyddyn a aeth heibio. Estynnodd Rita groeso cynnes i bawb ymuno yn y gweithgareddau eto ym mis Medi gan annog pawb i geisio dod â ffrind gyda hwy.

Tynnwyd y raffl i gloi y noson. Yr oedd y rhifau lwcus ar gefn y cardiau bwrdd bendigedig a roddwyd i bob aelod. Yr oedd rhain wedi eu gwneud gan Edwina ac yr oeddynt yn gywain iawn ac yn rhywbeth bach i bob un gadw i gofio am y noson. Diolchwyd yn fawr iawn i Edwina am ei gwaith medrus gan fod hyn wedi golygu oriau o waith paratoi iddi. Yr enillwyr lwcus y tro hwn oedd Anwen Pritchard, Gwyneth Jones, Mair Read ac Ellen Ellis.

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR

6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Stôf Draddodiadol neu FODERN i gynhesu eich tŷ

CYSYLLTWCH Â



JOHN HUGHES a'i FAB

IARD LO • Carmel • Gwynedd
01286 882160



Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

CHWILOTA

FFERMWYR YR UCHELDIR



Soniais rai misoedd yn ôl am anheddiad cynnar uwch Ynys Ettws ym Mwlch Llanberis. Yn sgil yr ymholiad am yr 'old mantlet' yng Nghwm Brwynog, daeth galwad gan Ken Jones yn cyfeirio at aneddiadau canol oesol yng Nghwm Brwynog. Mae un o'r anheddau hyn - casgliad o tua naw o gytiau neu dai llwyfan - yn uchel ar lethrau'r Wyddfa gerllaw Gorsaf Hanner Ffordd. Mae'n bosibl, yn ôl archeolegwyr o CADW mai at y rhain y cyfeirir yn y Record of Carnarvon yn 1352. Hyd yn hyn, anodd gwybod a oedd y rhain yn anheddau parhaol gydol y flwyddyn, ynteu yn hafotai a ddefnyddid yn ystod misoedd yr haf yn unig. Gwyddom eisoes fod y tiroedd uchel yn y cymoedd uwchben Llanberis yn perthyn i Gastell Dolbadarn ac mai ffermydd gwartheg oeddent. Mae olion clawdd pridd i'w weld ar lethrau Bryn Mawr islaw Moel Eilio yn debygol o fod yn un o waliau terfyn o'r cyfnod hwn.

Yn ddiweddar hefyd, deuthum ar draws erthygl gan Nia Powell o Adran Hanes Cymru, Prifysgol Bangor yn trafod cyfoeth ffermwyr ucheldir Eryri o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen. Fe'i cyhoeddwyd yn *Studia Celtica* (2007) a'i theitl yw 'Near the Margin of Existence'? Upland Prosperity in Wales During the Early Modern Period. Yn yr erthygl rhoir sylw arbennig i gyfoeth rhai o ffermwyr y tir mynyddig yn Nant Colwyn, sef y dyffryn sy'n rhedeg o Ryd-ddu i lawr am Feddgelert, ac sydd dros gefnen Bwlch Maesgwm o ardaloedd Cwm Dwythwch a

Chwm Brwynog. Dros y canrifoedd mae haneswyr wedi tueddu i edrych ar ffermydd ucheldir Cymru fel ardaloedd o dlodi amaethyddol: rhestrir nifer o haneswyr gan Nia Powell, gyda dyfyniadau eithaf difriol o werth y ffermio a hyd yn oed o gymeriad y bobl oedd yn byw yno! Ond o astudio ewyllysiau ffermwyr Nant Colwyn a rhestrau rhent rhai o'r mân stadau, mae Nia Powell yn dangos fod y mwyafrif o'r ffermwyr hyn yn gefnog. Un enghraifft arbennig ganddi yw teulu Dafydd Griffith, Gelli Ffrydiau, dyffryn Nantlle. Bu pump o'i feibion farw rhwng 1680 ac 1727, ac yr oedd cyfanswm gwerth eu heiddo bron yn ddwy fil o bunnau. Roedd un o'r meibion rheini yn byw yng Nghwm Brwynog, ac yr oedd gwerth ei stad yn £224 pan fu farw yn 1681.

Gwartheg oedd y prif anifeiliaid, ond o astudio patrymau eiddo yn yr ewyllysiau gellir gweld fod defaid yn cynyddu yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg. Enghraifft arbennig yw ewyllysiau teulu Meillionen, Beddgelert. Pan fu farw Griffith John Griffiths yn 1702 roedd ganddo 70 o ddefaid. Pan fu ei fab farw yn 1725 roedd cyfanswm y defaid yn 420, ond yn 500 erbyn marw mab hwnnw yn 1777. Dyna gynnydd syfrdanol yn nifer y defaid ar un fferm mewn cyfnod o dri chwarter canrif. A fu cynnydd cymharol ar holl ffermydd ucheldir yr ardal tybed?

Diddorol nodi fod rhestrau trethi tir plwyf Llanberis yn cadarnhau gwerth tiroedd yr ucheldir yn y cyfnod cynnar

hwn. Yn ystod y 1770'au roedd pedwar o ddaliadau yng Nghwm Brwynog yn talu dros bunt o dreth yn flynyddol. Roedd daliad Dafydd Jones, Cwm Brwynog yn talu dwy bunt a phedwar swllt. Dim ond fferm, Tŷ Du, oedd yn talu cymaint o fewn yr holl blwyf. Hyd yn oed mor ddiweddar â 1820 yr un oedd y patrwm. Taliad Cwm Brwynog oedd pum punt a deuddeg swllt o'i gymharu â Tŷ Du (dwy bunt ac un swllt ar bymtheg) a Llwyn Bedw (punt ac un swllt ar bymtheg). Diddorol a dadlennol fyddai cael astudiaeth gyffelyb am ffermydd ucheldir plwyf Llanberis. Tybed a fydd rhywun yn astudio'r patrwm presennol ymhen rhyw dri chan mlynedd?

Syr Dafydd Trefor

Roedd cadw geifr yn bwysig iawn ers talwm hefyd, er na cheir fawr ddim sôn am eifr yn nhraethawd Nia Powell am ffermwyr ucheldir Eryri. Gweler erthygl ddiddorol am eifr yn rhifyn cyfredol *Fferm a Thyddyn* gan y cyfaill Dafydd Guto. Ynddi mae'n sôn am Dafydd Trefor (teitl a ddefnyddid gan glerigwyr graddedig oedd Syr, nid anrhydedd gan y brenin neu'r frenhines), rheithor Llanallgo a Laneugrad ym Môn, ond un oedd yn wreiddiol o Landdeiniolen yn ôl pob tebyg. Roedd yn blodeuo fel bardd tan 1504-1527 yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig a ddarganfuwyd gan Irene George o'r Llyfrgell Genedlaethol ac a gyhoeddwyd mewn erthyglau yn *Nhrafodion Cymdeithas Hanes Môn* yn 1935 a 1936.

Yr unig dystiolaeth sy'n ei gysylltu â Landdeiniolen yw'r cyfeiriad yn ei 'Gywydd i ofyn Geifr' at ei ewythr Morgan ap Hywel o Landdeiniolen. 'Iarlles mewn mynwes mynydd' yw ei ddisgrifiad o'r afr.

Clochyddion

Llyfr diddorol a ddaeth o'r wasg yn ddiweddar yw 'Hen Glochyddion Cymru' gan Pegi Lloyd Williams. Mae'n crybwyll un o'r fro hon, sef fod clochydd Llanberis yn derbyn yr offrwm a deflid i Ffynnon Peris. Darllenwch y llyfr i gael gwybod cymaint mwy oedd i waith y clochydd na chanu'r gloch ac agor y bedd.

Oes yna gofnodion am glochyddion y fro hon? Gwn fod un teulu wedi parhau yn y swyddogaeth am nifer helaeth o flynyddoedd yn Llanrug. Bu Owen Prichard, Bryn Siencyn, yn glochydd Llanrug am bron i hanner can mlynedd - 'a strictly honest man and a person greatly beloved in his life and lamented on his death,' meddai Peter Bailey Williams amdano yng

nghofrestr claddu'r plwyf ar ei farwolaeth yn 1830. Dilynwyd ef gan ei fab, Richard Owen, a bu yntau wrth y gwaith am ddeng mlynedd ar hugain. Ei fab yntau, Owen Pritchard, Cae'r Maen a'i olynodd. Dyna dair cenhedlaeth o glochyddion o'r un teulu felly.

Beth am glochyddion eraill ym Metws Garmon a Llanddeiniolen?

Ail-godi hen stori'r Ysbiwr

Yn ôl i Gwm Brwynog! Bu cryn dipyn o sôn dros y blynyddoedd am yr ysbiwr honedig o'r Hafoty Newydd, sef Arthur George Owen. Sonnir amdano gan Rol Williams yn *Pobol Tu Ucha'r Giât* fel 'ysbiwr i Brydain ac i'r Almaen... a adwaenid fel Snowy...'

Ar ddechrau Mehefin cyhoeddwyd llyfr newydd gan yr awduron Madoc Roberts a Migel West - 'Snow: the double life of a WWII spy'. Mae'r llyfr hwn yn adrodd hanes Arthur Graham Owens, yn enedigol o Bontardawe. Roedd yn defnyddio'r enw Johnny O'Brien a Snow (anagram rhannol o'i gyfenw, mae'n debyg). Roedd ei ferch, Patricia Owens, yn actores ledlwyddiannus yn Hollywood gyda chwmni 20th Century Fox. Ei phrif ran oedd gyda Vincent Price yn y ffilm 'The Fly'. Bu farw yn 2000. Ydi dirgelwch Snow/Snowy yn parhau?

Damwain Glynrhonwy

Gyda diolch i Ken Jones (peintar) am ddwyn fy sylw at yr unig ddamwain angheuol i ddigwydd yn Nglynrhonwy yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ar y 5ed o fis Gorffennaf 1944 lladdwyd Ivor David Roberts, Llainwen, Llanberis, tra'n symud ffrwydron ar y safle. Anafwyd dau arall - John Parry, Bryngro, Cwm y Glo a George Williams, Tŷ'n Twll, Waunfawr - yn yr un digwyddiad.

Mae'n syndod, o sylweddoli faint o fomiau a ffrwydron oedd yn cael eu storio ar y safle, mai hon oedd yr unig ddamwain ble collwyd bywyd.

Mae'n gymaint syndod hefyd mai ym mis Hydref 1975, ddeng mlynedd ar hugain wedi diwedd yr Ail Ryfel Byd, y cafodd y safle ei ddatgan yn glir o unrhyw berygl gan ffrwydron.

Derbyniwyd nifer o nodiadau ac ymholiadau eraill fel roedd y golofn ar fin mynd i'r wasg. Rhaid disgwyl tan fis Medi i ddelio â'r rheiny!

Mwynhewch y gwyliau, a chofiwch anfon unrhyw wybodaeth neu ymholiad am hanes bro 'Eco'r Wyddfa' i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon, (Ffôn: 01286 673515).

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

YSGOL GYNRADD

Llongyfarchiadau i'r canlynol:

- Tîm Rygbi aelodau'r Urdd a ddaeth yn drydydd yn Nhwrnament Rygbi yr Urdd a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Byddant yn cynrychioli Arfon yn y gystadleuaeth genedlaethol yn Llanelli dros y penwythnos. Pob hwyl i chwi!

- Grŵp Llefaru a ddaeth yn drydydd yn Eisteddfod Sir yr Urdd a gynhaliwyd ym Mangor.

- Guto Blwyddyn 6 am ennill gyda'i waith celf yn Eisteddfod Sir Eryri. Bydd gwaith Guto yn cael ei anfon i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe.

- Tîm Pêl-rwyd yr ysgol am ddod yn 3ydd yn Nhwrnament Ysgolion Dalgylch Brynrefail.

- Tîm Pêl-droed a gymerodd rhan yn Nhwrnament Pêl-droed yr Urdd a gynhaliwyd ym Mhorthmadog Nos Lun. Da iawn i chwi i gyd!!

Noson Bingo. Cafwyd ymateb gwyb i'r noson bingo a gynhaliwyd cyn y Pasg. Braf iawn oedd gweld cymaint o rieni yn bresennol. Gwnaed elw anrhydeddus o £500.00. Diolch i aelodau'r Pwyllgor Rhieni ac Athrawon a weithiodd yn galed i drefnu'r noson. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer taflunydd bwrdd gwyn. Gwerthfawrogn eich cefnogaeth.

Gwersi Pêl Droed. Mae'r gwersi Pêl-droed 'Kick It' wedi cychwyn am gyfnod o 6 wythnos. Mae 32 o ddisgyblion yn derbyn gwersi.

Gêm Mathemateg 24. Dymunwn yn dda i Tomos Parry, Tomos Siôn, Cai a Jac a fydd yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Mathemateg Gem 24 ym Mhorthmadog nos Fercher ar Fai y 18fed. Pob lwc, hogia!

Clwb Cant Ysgol Waunfawr. Diolch i'r rhieni hynny sydd wedi anfon pres aelodaeth Clwb

Cant Ysgol Waunfawr. Ar hyn o bryd mae tua hanner cant o rieni wedi ymuno â chlwb cant yr ysgol ond rydym angen mwy o aelodau i wneud y clwb yn llwyddiannus. Felly os oes unrhyw un arall yn y pentref sy'n awyddus i ymuno cysylltwch â'r ysgol ar 650451. Diolch.

Cynllun Ail gylchu Dillad. Rydym fel ysgol wedi ymuno â Chynllun Ail Gylchu Dillad Antur Waunfawr. Mae'n ffordd gyfleus o ail ddefnyddio dillad yn lleol gan gasglu arian i'r ysgol yr un modd. Diolch i bawb a ddaeth â bag i'r ysgol.

Gŵyl Gyfeiriannu. Cymerodd Blwyddyn 6 ran yng Ngŵyl Gyfeiriannu Ysgolion Arfon yn y Faenol bnawn dydd Mercher, Mai yr 11eg. Llongyfarchiadau mawr i Cai, Tomos Siôn, Tomos Morgan a Huw, a fydd yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Gwynedd yng Nglynllifon ar Fehefin 29ain. Pob hwyl, hogia! *Croeso cynnes iawn i Mrs Anjelica Evans, Pablo ac Iestyn o'r Ariannin i'n plith. Maent wedi ymgartrefu yng Ngwastadfaes dros y ddau fis diwethaf, ac yn treulio'u hamser yn yr ysgol. Maent wedi ymgartrefu'n dda yn ein plith ac mae pawb yma yn dweud OLA!*

Rygbi. Bu tîm rygbi aelodau'r Urdd yng Nghystadleuaeth rownd derfynol Rygbi yn Llanelli ganol fis Mehefin. Roedd 20 o dimau dros Gymru yn cystadlu ac yn ôl pob sôn cawsant amser da gan fwynhau'r profiad yn fawr.

Diolch i bawb a gefnogodd yr ymgyrch Ail-gylchu Dillad yr Antur. Casglwyd 450kg o ddillad sy'n golygu bod yr ysgol wedi derbyn £130 i goffrau'r Ysgol. Byddwn yn casglu dillad ac ati eto ymhén rhyw bedwar mis.

Carem ddiolch i Mr Andrew Setatree, Gweithiwr Ieuenctid Cristnogol, am roi gwasanaeth

arbennig i Flwyddyn 6 yr wythnos diwethaf ac am gyflwyno llyfryn i'w helpu i drosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd.

Trip. Bu plant Dosbarth Mrs Parry a Miss Hughes a'r drip i Ddinas Dinlle yn ddiweddar:

Criced. Cynhelir cystadleuaeth Criced yng Nghoed Helen yng Nghaernarfon ddydd Mawrth nesaf, Mehefin 21ain. Bydd 10 o blant Blwyddyn 6 yn mynychu'r gystadleuaeth sef, Sara, Mair, Cai, Tomos Siôn, Ryien, Morgan, Tomos Parry, Ioan, Huw a Tomos Morgan.

Dymunwn yn dda iddynt.

Mabolgampau. Os bydd y tywydd yn caniatáu!! Bwriadwn gynnal diwrnod Mabolgampau ddydd Mercher nesaf, Mehefin 22ain, neu ddydd Iau, Mehefin 23ain, neu ddydd Gwener, Mehefin 24ain. Byddwn yn cysylltu â chwi ddydd Mawrth i gadarnhau'r dyddiad. Croesi bysedd felly am ryw faint o haf a thywydd braf!!

Beicio. Ddydd Llun Mehefin 27ain a'r dydd Llun canlynol Gorffennaf 4ydd, bydd Blwyddyn 6 yn derbyn 2 ddiwrnod hyfforddiant beicio



Disgyblion yr ysgol hefo Colin Charvis ar y Morfa yng Nghaernarfon.



Plant yr ysgol ar ymweliad â Dinas Dinlle.

parhad ar dudalen 20

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: **(01286) 676 040**

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

GWALLT



Llongyfarchiadau i Elen Morris, Lois Jones, Alicia Jones a Sophie Jones ar eu llwyddiant yn ennill Tystysgrif Lefel 1 yn Trin Gwallt wedi cwblhau cwrs blwyddyn yng Ngholeg Menai.

PEIRIANNEG



Stephen Mill, David Hanks a Chris Leggett a'u tiwtoriaid, wedi derbyn eu tystysgrifau wrth dderbyn Gradd Lefel 1 ym Mheirianeg Ceir wedi cyfnod o astudio yng Ngholeg Menai.

PERFFORMIO CREADIGOL



Llongyfarchiadau i Elin Morris, ar y dde, ar dderbyn Tystysgrif Lefel 1 mewn Perfformio Creadigol, wedi cwrs o astudio yng Ngholeg Menai.



ENILLWYR!!!! CWSPAN PÊL-DROED CYMRU dan 13

Ar ddydd Sul, 15fed Fai 2011, enillodd tîm pêl-droed genod dan 13 Gwpan Pêl-droed Cymru trwy guro Ysgol Dyffryn, Port Talbot o 6-2.

Fe chwaraewyd y gêm ar gae Park Hall yng Nghroesoswallt, cartref T.N.S., ac unwaith eto yr oedd criw o rieni a ffrindiau yn bresennol i'w cefnogi.



Cafwyd eithaf braw ar ddechrau'r hanner cyntaf oherwydd ar un adeg yr oedd Brynrefail yn colli o 2-1. Ond erbyn hanner amser yr oedd chwarae da genod Brynrefail yn dechrau goresgyn eu gwrthwynebwyr gyda'r tîm yn dechrau chwarae pêl-droed da.

Beth bynnag oedd y brath o dafod a gafwyd gan Mr Gareth Davies, eu hyfforddwr, ar hanner amser yn sicr fe weithiodd ac fe welwyd genod Brynrefail ar dân o'r chwiban cyntaf.

Sgoriwyd pedair gôl yn ddi-ateb yn yr ail hanner trwy Alaw Hughes yn sgorio 'hat trick', Kate Humphreys yn sgorio 2 a Lois Regan yn ychwanegu un ac yr oedd pawb oedd yn gysylltiedig gyda'r tîm ar ben eu digon pan welwyd Lois Regan yn codi'r cwpan.

Rhaid llongyfarch y tîm ar ei llwyddiant a hefyd Mr Gareth Davies sydd yn datblygu'n sydyn i fod y 'Jose Mourinho' Brynrefail.

Genod Brynrefs. Da 'de!

YNREFAIL



ENILLWYR TLWS CEMEG

Y mae'r llun isod yn dangos tîm Ysgol Brynrefail sef, Ceinwen Hughes, Anna Haycock ac Elin Morgan yn derbyn eu tlws gan Dr Mike Beckett, Prifysgol Bangor yng nghwmni eu hathrawes a'r Pennaeth Cemeg, Dr Beverly A. Jones

Ar y 14eg o Ebrill 2011 fe gynhaliwyd 'Cystadleuaeth Dadansoddwyr Cymru 2011, dan nawdd Cymdeithas Frenhinol Cemeg, ym Mhrifysgol Bangor. Yr oedd yn gystadleuaeth frwdfrydig rhwng llu o ysgolion gogledd Cymru ac ar ddiwedd y gystadleuaeth tîm Ysgol Brynrefail a ddaeth i'r brig.

Fe fyddant yn cystadlu yng nghystadleuaeth Prydain gyfan a gaiff ei chynnal yn Reading ar 21/22 Mehefin. Yr ydym i gyd ym Mrynrefail yn hynod o falch o'u llwyddiant ac yn dymuno'r gorau yn y rownd nesaf.



ENILLWYR!!!! CWPAŊ PÊL-DROED CYMRU dan 14

Ar ddydd Sadwrn 14eg o Fai 2011 enillodd tîm pêl-droed genod dan 14, Gwpan Pêl-droed Cymru trwy guro Ysgol Whitchurch, Caerdydd o 6-0. Fe chwaraewyd y gêm ar gae Park Hall, Croesoswallt, cartref T.N.S., a da oedd gweld torf o rieni a ffrindiau yn bresennol i gefnogi.



O'r chwiban cyntaf fe chwaraeodd tîm Brynrefail bêl-droed bwriadus, y taclo'n deg ond yn galed, y symudiadau yn llawn o basio destlus a'r tîm oll yn cyfrannu'n hael.

Er gorau gôl-geidwad Whitchurch, a gafodd gêm wych, buan iawn y sgoriwyd y gôl gyntaf a doedd hynny'n ddim ond sbardun i fwy o chwarae da trwy'r hanner cyntaf a'r sgôr ar ei ddiwedd yn 4-0. Dechreuodd yr ail hanner ac yn fuan sefydlwyd yr un patrwm o bwyso a phwyso ar gôl Whitchurch gyda'r rhyng-basio yn well na'r hanner cyntaf hyd yn oed. Ar ddiwedd y gêm fe drechwyd Ysgol Whitchurch o 6-0 gyda Lois Regan yn sgorio 'hat trick' ac Alaw Hughes, Mari Gibbard a Kushla Everitt-Kingston yn sgorio'r goliau eraill a bu gorfoledd pan godwyd y cwpan gan y capten, Mari Gibbard.

Rhaid hefyd llongyfarch a diolch i holl staff yr Adran Gorfforol ond yn enwedig y rheolwr, Mr Gareth Davies, am ei waith parod yn paratoi a chefnogi'r tîm.

Genod Brynrefs - da 'de

MABOLGAMPAU

Er ei ohirio oherwydd y tywydd drwg y diwrnod cyntaf bu cystadlu brwdfrydig ar yr ail ddiwrnod a thŷ Eilian fu'n fuddugol eleni. Gwelwn Lois Pennant a Huw Owen, capteiniaid tŷ Eilian, wrth eu boddau wedi derbyn y cwpan gan bennaeth yr Adran Gorfforol, Mr Phil Holland. (Bydd canlyniadau cyfan a mwy o luniau yn y rhifyn nesaf).



ENNILL CAP LLEOL

Dyna fu hanes **Rhys Hughes-Jones**, 16 oed o Lanrug. Mae Rhys yn aelod o Gadlanciau Llanberis ers dwy flynnedd bellach.

Roeddwn yn cofio Rhys fel gol-geidwad i dimau Llanrug mewn sawl cystadleuaeth Tlws yr Eco. Ym myd y bel hirgron serch hynny y daeth llwyddiant. Dewiswyd carfan o Gymru i wynebu timau cadlanciau o'r Alban, Gogledd Iwerddon, Gogledd Lloegr, De-orllewin Lloegr a Llundain. Rhys oedd yr unig ogleddwr yn nhim Cymru.

Cafwyd llwyddiant draw yn Sennybridge, wrth i dim Cymru drechu pob un o'r timau eraill. Cymru yn bencampwyr a Rhys yn cael ei ddewis fel chwaraewr y gystadleuaeth. Yn yr ail-reng mae Rhys yn chwarae, ac o dymor nesaf ymlaen bydd digon hen i gynhyrchioli carfan Ieuenctid Caernarfon. Dilynwn ei yrfa gyda diddordeb. Erbyn hyn, mae sawl gogleddwr yn amlygu eu hunain ymysg carfannay rhanbarthol Cymru. Hefyd, mae egin garfan Gogledd Cymru yn dechrau magu dannedd.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

LLONGYFARCHIADAU i Lois Bee, Glennydd, Bryn Gof, ar ennill tlws am yr eitem orau yn yr Adran Tecstilau i ysgolion Cynradd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe yn ddiweddar

(llun gan Gwyndaf)

CAEATHRO

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Ceri Ann a Paul Evans ar eu Priodas yn ddiweddar ar Ynys Melita. A oedd o'n gyd-ddigwyddiad bod Vera ac Alun Roberts ar eu gwyliau ar yr un pryd, ac ar yr un ynys?

AWDUR LLEOL. Ar ôl ennill gwobr Tir na N'og am ei llyfr am hanes boddi Capel Celyn, *Ta-Ta Tryweryn*, mae Gwenno Hughes wedi ysgrifennu nofel yn y gyfres 'Pen Dafad'. Llyfr ar gyfer darllenwyr rhwng 9 a 12 oed yw *Rhyfel Cartref*, sy'n delio â newidiadau mawr mewn bywyd unigolyn. Y cyhoeddwr yw Y Lolfa a'r pris yw £3.95.

CAPEL CAEATHRO. Cynhelir y canlynol yn ystod mis Gorffennaf.

3: 10.00 Ysgol Sul

2.00 Oedfa'r Cymun o dan arweiniad y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson.

10: 10.00 Ysgol Sul.

17: 10.00 Mr Richard Lloyd Jones. Dim ysgol Sul.

24: Dim Ysgol Sul nac Oedfa.

Fel arfer, ni fydd oedfaon yn ystod mis Awst. Cyfle i ymuno â chynulleidfaoedd eraill efallai yn eu oedfaon hwy.

Ar ddydd Sul, 4 Medi, am 2.00 o'r gloch bydd aelodau newydd yn cael eu derbyn i'r Eglwys mewn gwasanaeth o dan arweiniad y gweinidog. Gweinyddir y Cymun yn ogystal. **ARWYDD NEWYDD.** Yn oes y toriadau (sef 'arbedion effeithlonrwydd') beth oedd y gost a beth yw'r synnwyr mewn codi arwydd bach glas newydd

hanner ffordd i fyny polyn arian tal newydd wrth gyffordd lôn Tai Glangwna a'r ffordd i Gaernarfon? Beth oedd yn erbyn (pe bai ei angen o gwbl!!) ei godi ar gyfer yr arwydd sydd ddim ond llathen i ffwrdd? Pwy sydd am dorri'r tyfiant o'i amgylch a'i oleuo yn y tywyllwch a'r cysgod?

GÊM BÊL-DROED CAEATHRO V ROWND A ROWND

Ar ddydd Sadwrn, 18 Mehefin, cynhaliwyd gêm gofiadwy ar gae pêl-droed Caeathro, rhwng tîm y pentref a thîm pêl-droed *Rownd a Rownd* a hynny er mwyn codi arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Eryri, 2012.

Bwriad pwyllgor apêl Caeathro oedd cynnal digwyddiad fyddai'n cynnig cyfle i bobl ifanc a phlant y pentref fwynhau cymryd rhan mewn achlysur i godi arian at Eisteddfod 2012. Diolch i griw y gyfres boblogaidd *Rownd a Rownd* am gytuno i ffurfio tîm i fod yn wrthwynebwyr teilwng i hogia Caeathro.

Gofalodd aelodau pwyllgor yr Urdd a Chlwb y Merched bod digonedd o luniaeth ar gael i fodloni'r niferus a ddaeth ynghyd i wyluo campau'r pêl-droedwyr. Diolch yn arbennig i Gwenllian Daniel am ei chymorth gyda'r bwyd a'r diod poeth. Diolch hefyd i ddynion pwyllgor cae chwarae'r pentref am ofalu bod castell bownsio ar gael am ddim i ddiddori'r plant lleiaf. Diolch iddynt hefyd am sicrhau bod y cae mewn cyflwr gwerth chweil ar gyfer y gêm.

Cafwyd syrpreis arbennig gan dîm *Rownd a Rownd* wrth iddynt gyrraedd y cae pan sylweddolwyd bod Malcolm Allen yn un o'u chwaraewyr! Er gwaetha hyn, o fewn deng munud, roedd Caeathro wedi sgorio tair gôl, ac erbyn diwedd

yr hanner cyntaf y sgôr oedd 5 gôl iddyn nhw ac 1 i *Rownd a Rownd*.

Oherwydd bod hen goesau yn hynod o flinedig erbyn yr ail hanner, cafwyd gêm llawer mwy cystadleuol! Sgoriodd Jason i dîm Caeathro a Iolo yn dod â chyfanswm *Rownd a Rownd* i ddwy gôl yn y ddau funud olaf. Y sgôr ar ddiwedd yr ornest felly oedd saith gôl i Gaeathro a dwy i *Rownd a Rownd*.

Cafwyd prynhawn hwyliog a

chodwyd swm anrhydeddus o arian ar gyfer apêl Eisteddfod 1012. Diolch i bawb a gyfrannodd i sicrhau llwyddiant y diwrnod - mae gormod ohonynt i'w henwi yma, ond dylid cyfeirio'n arbennig at y dyfarnwr, Mr Eric Roberts, am gadw trefn ar y timau ac Alan Williams am sylwebu'n slic a hwyliog ar ddigwyddiadau'r pnawn.

Fel canlyniad mae'r Gronfa Apêl lleol wedi elwa o tua £400.

CYNGOR GWYNEDD

Cystadleuaeth Gardd Fwyd Gwynedd

Mae cyfle i arddwyr o Wynedd ennill gwobr arbennig trwy dyfu ffrwythau a llysiau.

Mae Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd yn lansio Cystadleuaeth Gardd Fwyd 2011 er mwyn annog pobl i dyfu eu bwyd ei hunain.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i arddwyr sy'n cynhyrchu ffrwythau, llysiau neu berlysiau yng Ngwynedd, ar bob graddfa - o botiau ar silff ffenestr i ardd draddodiadol neu gae. Eleni mae dau gategori yn y gystadleuaeth - Gerddi Preifat ac Ysgolion.

Bydd yr enillwyr yn derbyn £50 mewn tocynnau i'w gwario yn eu meithrinfa blanhigion lleol.

Mae tyfu bwyd eich hun yn gynyddol boblogaidd iawn fel mae pobl yn sylweddoli'r manteision economaidd, amgylcheddol a phersonol i arddio. Gall garddio fod o les i'r iechyd ac i'r enaid - mae ymchwil yn dangos fod garddio yn ffordd dda o wneud ymarfer corff a lleihau straen. Mae garddwyr yn aml yn sôn am y boddhad a geir wrth dyfu, cynaeafu, coginio a bwyta ffrwythau a llysiau o'u gardd ei hun, gan wybod yn union sut mae wedi ei gynhyrchu.

Mae nifer o adroddiadau yn cefnogi budd amgylcheddol o dyfu eich bwyd eich hun. Gall gwtogi'r pellteroedd mae bwyd

yn gorfod ei deithio o'r cynhyrchwr i'r bwrdd - mae chwarter o'r holl lorïau ar ein ffyrdd yn cludo bwyd o ffermydd i unedau prosesu, storfeydd ac archfarchnadoedd.

Dywed arbenigwyr fod dyfodol bwyd yn ansicr oherwydd cynhesu byd eang, twf poblogaeth a phrinder adnoddau. Dyma un ffordd o addasu a pharatoi ar gyfer y newidiadau hyn.

Mae garddio yn hwyl i blant hefyd - gall helpu i annog diddordeb mewn bwyd a sut mae'n cael ei gynhyrchu yn ogystal â dod a byd natur gam yn nes atynt.

Gall garddwyr o bob oedran a phrofiad gymryd rhan yn y gystadleuaeth ac mae'r trefnwyr yn arbennig o awyddus i glywed gan rai sy'n newydd i arddio. Mae Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd eisiau gwybod am yr amrywiaeth o gynnyrch rydych yn ei dyfu, a dysgu am eich profiadau ac unrhyw broblemau. I gymryd rhan gyrrwch e-bost at: PartneriaethAmgylcheddol@gwynedd.gov.uk neu ffoniwch 01286 679652 i dderbyn ffurflen gais. Y dyddiad cau ar gyfer ysgolion yw 8 Gorffennaf 2011, ac ar gyfer gerddi preifat 30 Medi 2011.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.pagwynedd.org neu ffoniwch 01286 679652.

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870088

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

SWIGOD A SEBON



**BOCS O
FFRWYTHAU A LLUSIAU**

£10. Wedi ei ddanfon
AM DDIM yn lleol

ffoniwch - WIL, PEN-LLYN 079990926484

www.a-v-w.co.uk
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Mrs Kathleen Williams, 6 Glanrafon Bungalows, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.

DIOLCH. Dymuna Mrs Kathleen Williams ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion, arian a'r blodau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH. Dymuna Gareth Jones, 27 Dôl Elidir, ddiolch o galon am y llu cardiau, galwadau ffôn, anrhegion a phres a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 50 oed ar y 10fed o Fai. Diolch yn fawr iawn i bawb!

DIOLCHIADAU. Dymuna Gwyneth a theulu'r diweddar Deryck Gomez, Llanberis a Llundain, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS. Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn rhai amrywiol a phrysur, i'r Côr.

Nos Sadwrn, y 14eg o Fai, roeddynt yn diddori trigolion Clawdd Newydd a'r cylch yn eu Neuadd Bentref foethus. Roedd y gynulleidfa yn amlwg wedi mwynhau'r eitemau corawl ac unigol.

Yr achlysur canlynol, ar yr 20fed o Fai, oedd priodas merch un o aelodau'r Côr, Gareth Hughes, yn Eglwys Betws y Coed. Mae Gareth, mab Enid a'r diweddar Ceris Hughes, Llanberis, yn aelod ffyddlon o'r Côr ac hefyd yn unawdydd ar yr ewffoniwm.

Parti Pen-blwydd ddenodd y Côr i Nant Gwrtheyrn ar nos Sadwrn Mehefin yr 1leg. Y bwriad oedd perfformio am ryw hanner awr ond, cymaint oedd mwynhad y gynulleidfa o Saeson, bu raid inni ymestyn y

rhaglen i dri chwarter awr! Doedd y mwyafrif o'r Côr ddim wedi gweld y Ganolfan ar ei newydd wedd, gyda'r tai a'r Capel wedi eu hadnewyddu, a'r adeilad moethus lle y cynhaliwyd y Parti. Yn ôl y drafodaeth ar y noson, mae llawer o aelodau'r Côr yn bwriadu dychwelyd i bentref hudolus y Nant!

Nos Iau, Mehefin 16eg, diddanu gwestion Gwesty'r Victoria, Llanberis oedd nod y Côr.

Ar y noson ganlynol, nos Wener, Mehefin 17eg, cymerodd y Côr ran mewn Cyngerdd yn y Ganolfan i godi arian tuag at Apêl Llanberis, Eisteddfod Yr Urdd a gynhelir yng Nglynllifon y flwyddyn nesaf.

Roedd yn amlwg fod y gynulleidfa niferus wedi eu plesio'n fawr! Cyfrannodd y noson dros £500 tuag at yr Apêl.

Diolch i'r holl artistiaid a gymerodd ran, i'r rhai a drefnodd y cyngerdd, i'r merched a ymgymerodd â'r lluniaeth ar ddiwedd y noson, a diolch arbennig i ofalwr y Ganolfan am ei drefniadau trylwyr cyn, ac ar ôl, y perfformiad.

Apêl Eisteddfod yr Urdd 2012
- Llanrug a Chwm y Glo

Diwrnod Hwyl i'r Teulu

yn Y Goedlan

Bryn Bras

10fed o Gorffennaf

11:00 tan 4:00

Barbeciw, gemau, castell
neidio, stodinau a
chymdeithasu!

£10 i deulu neu

£3.50 oedolyn £2 i blentyn

(ar gael o swyddfa Anti Margaret,
Ysgol Gynradd Llanrug)

MOLI

Mwy O Le i'r Iesu

Oedfa fisol yn Capel Coch,
Llanberis.

Trefnir ac arweinir yr oedfa
gan ieuencid ac arweinwyr
CIC (Clwb Ieuencid
Cristnogol).

Os nad oes oedfa nos yn
eich capel / eglwys chi, mae
croeso cynnes i chi ddod
atom i'r oedfa hon a
gynhelir ar yr ail nos Sul o'r
mis.

Bydd yr oedfa nesaf am 5.00
o'r gloch, nos Sul, Mai 8.

Croeso hefyd i chi aros am
baned ar ôl yr oedfa.

'Rhen Em

Faint ohonom yn y llun isod sydd ar ôl, dwedwch? Rhyw bedwar neu bump dwi'n meddwl. Rhowch wybod os yn gyfleus. Hoffwn wybod. Mae un yn llai rŵan oherwydd yn ystod y dyddiau diwethaf gadawodd 'Rhen Em (Emrys Owen) ni. Hen hogyn clên.

Yn Solihull oedd o'n byw rŵan, yn gyn-brifathro yno; ond hogyn o Lanbêr oedd 'Rhen Em o'i goryn i'w sawdl. Hogyn o Bethesda St. ond roeddem ni wedi ei gyfethol yn gynnar iawn yn un o hogia Llainwen. Yn y cerdyn olaf oddi wrtho yn dymuno'n dda i ni'n dau yn ein cartref newydd yn Llanrug dyma ddywedodd: 'Symud yn nes i Lainwen a chael bod yn nes at y teulu.'

Fe ddechreuom ein dau yn yr hen ysgol Dolbadarn, Ceunant St. yn bedair oed. Pan ddyrchafwyd tad a mam y frenhines bresennol yn frenin a brenhines penderfynodd rhywun y dylem ni blant gael eu gweld. Aent o gwmpas y wlad mewn car agored. Adeiladwyd llwyfan tri llawr wrth ymyl yr eglwys oedd ger yr orsaf fel y gallai'r plant eu gweld yn mynd heibio. Deuai'r trên i orsaf Caernarfon bryd hynny.

Rhoddwyd tocynnau i bob ysgol i'w rhannu. Mr Llew Madog Jones oedd prifathro Ysgol Dolbadarn ar y pryd. Penderfynodd roi dau docyn i bob dosbarth, a'r plant eu hunain i ddewis pwy oedd yn cael mynd. 'Rhen Em a fi gafodd rai dosbarth pedwar.

Roedd yn chwaraewr pêl droed bach da a gyda balchder y chwaraeai i dim Lanbêr. Doedd unman i newid wrth y cae bryd hynny; roedd yn rhaid newid adre a cherdded i'r cae. Clywem

'Rhen Em yn ei chlopiant hi dros Pen Graig, i lawr am y Bont Huws Drygist ac i'r cae ar bnawn Sadwrn.

Cafodd ei frifo'n aml ond unwaith yn reit hegar, a daeth fy nhad â fo adra. Newydd iddynt gyrraedd Bethesda St daeth cnoc ar y drws. Rheolwr a chapten eu gwrthwynebwyr oedd yno yn dod i weld sut oedd 'Rhen Em. Poenai o fod eu parlwyr ffrynt mor fach - roeddynt yn sathru traed ei gilydd!

Bu rhaid iddo, fel pawb o'i oed, fynd i'r lluoedd arfog, ac ar ddiwedd y rhyfel aeth i'r coleg yn Wrecsam. Collasom nabod â'n gilydd am flynyddoedd. Roedd o yn dysgu yng nghyffiniau Birmingham a finnau'n dysgu ym Manceinion. Roedd wedi priodi â Madge, Cymraes o'r de, ond bu ffawd yn garedig a dod a ni'n ôl yn ffrindiau. Treuliem oriau yn siarad ar y ffôn ac anfon cardiau i'n gilydd. Lanbêr, pêl-droed a chapel Nant Padarn oedd cynnwys y cyfan bron.

Fo oedd un o hoelion wyth ei gapel yn Solihull ers amser bellach. Roedd y fan honno yn bwysig iawn iddo. Hoffai drefnu, ac wrth gwrs câi siarad Cymraeg. Y llythyr diwethaf a gefais ganddo oedd ar ddydd Llun y Pasg eleni. Roedd o mor falch o allu dweud eu bod wedi cael Cymanfa Ganu lwyddiannus y diwrnod cynt, a phump ohonynt o Lanbêr: Heulwen Morris, John (sub) Evans Hughes, Elen (hogan John Owen, East Lynne a Lottie), Anwen (hogan Huw, Bee Hive) ac yntau.

Ffarwel 'Rhen Em. Dwi mor falch fy mod wedi cael dy nabod.

MAIR DAVIES (Lainwen gynt)



Dosbarth pedwar, Ysgol Dolbadarn, tua 1935. Emrys Owen yw'r ail o'r chwith yn y drydydd rhes o'r cefn. Mair Davies yw'r trydydd o'r dde yn yr ail res o'r cefn.

DIWRNOD HWYL I'R TEULU, Y Goedlan

Gorff 10 2011, 11-4pm,

Barbeciw, Gemau, castell neidio, stodinau.

Tocynnau yn swyddfa'r ysgol gynradd

Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YSGOL GYMUNED

Rydym fel ysgol yn llongyfarch ein Pennaeth, Mr Gareth Fôn Jones, ar gael ei benodi yn Bennaeth Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Bydd yn golled fawr i ni yma ym Mhenisarwaun ar ei ôl. Diolchwn iddo am ei frwdfrydedd i'r ysgol a holl weithgareddau'r Gymuned yn ystod y saith mlynedd diwethaf a dymunwn y gorau iddo i'r dyfodol.

Llwyddiant. Rydym fel ysgol yn ymfalchio yn llwyddiant y plant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe. Daeth y parti Unsain yn gyntaf, y Côr yn ail a'r Gân Actol yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr iddynt. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhieni am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad ynglŷn â'r trefniadau i fynd â'r plant i Abertawe. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Diolch hefyd i bawb am eu rhoddion tuag at y costau.

Twrnament Tennis. Bu rhai o blant Bl. 3, 4, 5 a 6 yn cymryd rhan yn y Twrnament yn y Ganolfan Tennis dydd Mawrth, 7 Mehefin. Roedd pawb wedi cael hwyl yn chwarae yn erbyn y timau eraill o wahanol ysgolion. Llongyfarchiadau i Catrin Sara, Amie, Catrin Elen a Natasha am ddod yn ail yn eu grŵp.

Symud Dosbarthiadau. Roedd dydd Iau, 16 Mehefin, yn ddiwrnod prysur iawn yn yr ysgol. Gan fod plant Bl. 6 wedi mynd i Ysgol Brynrefail am y diwrnod roedd cyfle i bawb symud i fyny i'r dosbarth y byddant ynddo ym mis Medi. Yn ogystal, gwahoddwyd y plant a fydd yn mynychu'r ysgol am y tro cyntaf yn y dosbarth meithrin yma am y bore. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiadau yma yn fawr iawn.

Mabolgampau'r Urdd. Cynhaliwyd y mabolgampau ar gaeau Syr Hugh Owen nos Iau, 16 Mehefin am 4.30 o'r gloch. Diolch i bawb a gymerodd ran a llongyfarchiadau i Lois, Bl.6 ar ddod yn ail yn y ras redeg unigol. Aeth ymlaen i gymryd rhan yn Mabolgampau'r Sir ar gaeau Treborth a llwyddo i ddod yn bedwerydd yno, da iawn chdi, Lois. Gyda diolch i'r staff am eu hyfforddi ac i'r rhieni am ofalu am y plant yn ystod y gyda'r nos.

Taith Gerdded. Aeth plant Bl. 3 a 4 ar daith gerdded i Lyn Llydaw dan arweiniad Swyddog o Blas Tan y Bwlch dydd Gwener, 24 Mehefin. Roedd pawb wedi mwynhau treulio'r bore allan yn yr awyr agored, ac yn yr un modd dysgu am yr awyrgylch o'u cwmpas wrth droed yr Wyddfa. Profiad Ysgol. Croesawyd

Catrin Jarvis yma ar brofiad o Ysgol Brynrefail rhwng Mehefin 27 a Gorffennaf 1.

Gŵyl Gyfeiriannu. Cynhelir y rownd derfynol yng Nghlynllifon ddydd Mercher, 29 Mehefin. Dymunwn y gorau i Owain, Sam, Catrin Sara ac Amie fydd yn cymryd rhan.

Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen. Cynhelir Cymanfa Ganu i agor gweithgareddau wythnos y Carnifal yn yr Eglwys nos Sul, 3 Gorffennaf am 6.30 o'r gloch. Bydd Côr plant yr Ysgol yn cymryd rhan a gwerthfawrogwn gael eich cefnogaeth os gwelwch yn dda.

Mabolgampau. Cynhelir y mabolgampau bawn dydd Mercher, 6 Gorffennaf am 1 o'r gloch os bydd y tywydd yn caniatáu. Mae croeso i chwi ddod draw i gefnogi'r plant.

Trip diwedd Tymor yr Haf. Gan fod pawb wedi mwynhau eu hunain gymaint y llynedd rydym wedi penderfynu mynd â phlant yr ysgol i'r Gelli Gyffwrdd eto eleni ar ddydd Mawrth, 12 Gorffennaf.

Gwyliau Haf. Bydd yr ysgol yn cau dydd Gwener, 15 Gorffennaf ac yn ailagor i'r plant dydd Gwener, 2 Medi.

CRONFA PENSIYNWYR. Pêl Bonws Loteri - Enillydd mis Mai oedd Mrs Carole Porter. Llongyfarchiadau.

COLLI ANWYLIAID. Ein cydymdeimlad llwyr ag Eleanor Jones, Bron y Waun, ar ei cholled o golli ei brawd annwyl. Alun o Gaernarfon.

Ein cydymdeimlad hefyd â Mrs Nani Evans, 26 Bryn Tirion, ar golli chwaer yng nghyfraith, Mrs Peri Evans o Ddeiniolen.

DIOLCH. Dymuna Llion a Linzi ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Ela Mai, wyres fach i Eleri a Glyn, Ty'n Clwt, a gor-wyres i Gwen, Bron y Gaer. Pob bendith i chwi fel teulu.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Ynyr a Gwenllian, Treganna, Caerdydd, ar enedigaeth eu mab bychan, Deio Glyn ar 5 Mehefin. Wyr cyntaf i Nant a Tegid ac i Afryl ac Aled, Caerdydd.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Mrs Bessie Williams, 1 Bron y Waun, ar ddod yn hen nain i Ilan, mab bychan Eleri a Siôn Stokes.

GWELLHAD. Deallir fod nifer wedi bod yn sâl yn ddiweddar. Ein cofion annwyl atoch i gyd a brysiwch wella. Cofion arbennig at George Herd a Selwyn Griffith sy'n derbyn triniaethau yn Ysbyty Gwynedd. Rydym yn

meddwl amdanoch.

CYDYMDEIMLAD. Anfonir ein cydymdeimlad llwyr â theulu Camelot. Yn dawel yn Ysbyty Eryri, ar ôl brwydr hir a dewr bu farw Eurwyn (Eurwyn Glass) yn 75 mlwydd oed - gŵr annwyl Shirley, tad a thad yng nghyfraith cariadus Wendy a David, Barry a Gwenda a Karen a Geraint; taid balch Mathew, Gethin, Siôn, Gavin, Josh, Lisa, Daniel a Michael, a brawd a brawd yng ngyfrith ac ewythr hoff. Talwyd teyrnged hyfryd iddo gan ei wŷr hynaf, Mathew a phwysleisiai ofal tyner Nain Shirley ar hyd y blynyddoedd.

PWYLLGOR NEUADD.

Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a Gorffennaf. Yr enillwyr oedd

Mehefin: Shirley Jones, Camelot; Elizabeth Jones, 17 Bryntirion;

Gorffennaf: Alwyn Williams, Penger; Nansi Williams, 15 Bryntirion.

Cynhelir **Miri Haf nos Iau, 14**

Gorffennaf, gyda gemau, carioci, stondinau, tombola, cŵn poeth, diod a raffl. Croeso cynnes i bawb.

Cynhelir Pwyllgor Neuadd nos Fawrth, 5 **Gorffennaf.** Rydym fel Pwyllgor yn cydymdeimlo â Shirley, Camelot, a'r teulu oll yn eu colled fawr o golli Eurwyn, gŵr, tad a thaid arbennig ac aelod ffyddlon o'r Clwb Cant o'r cychwyn.

Dymunir llongyfarch Gareth, Pennaeth yr Ysgol Gymuned ar ei benodi'n Bennaeth Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Diolchir iddo am bresenoli ei hun ymhob pwyllgor yn ymwneud â'r Gymuned - Pwyllgor Neuadd, Eisteddfod Eryri 2012, Eisteddfod Bentrêf a bu'n hynod gefnogol i'r Ysgol Sul. Gwerthfawrogir ei hawddgarwch tuag at y plant, staff a chyfeillion y pentref.

Dymunir bob hapusrwydd iddo yn Llanberis - bu llwyddiannau aelodau Urdd yr ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Abertawe yn bluen fawr yn ei het. Diolch, Gareth, a phob hwyl.

YSGOL SUL BOSRA.

Cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr, Cylch Cwm y Glo a Deiniolen yn y Neuadd Gymuned ar Sul, 5 Mehefin am 2 o'r gloch. Braf oedd gweld y Neuadd yn llawn a'r tair Ysgol Sul - Ebeneser Deiniolen, Capel Coch Llanberis a Bosra Penisarwaun yn cymryd rhan a gwneud eu gwaith ar y Damhegion mor glodwiw. Diolch i athrawon Ysgol Sul Ebeneser am y rhan dechreuol hynod addas ac i Valmai a Gareth am eu gwaith ar yr organ a'r piano. Gwnaed casgliad haelionus tuag at 'Cynllun Efe'. Diolch i athrawon yr ysgolion Sul am eu llafur, i'r Parch John Pritchard am lywyddu, i'r rhieni am eu hanogaeth ac i bawb a gefnogodd y Gymanfa. Dilynwyd gyda Te Bach amheuthun.

Cynhaliwyd Cymanfa'r Methodistiaid (Wesleidd) yng Nghapel Ebeneser Caernarfon. Cafwyd Cymanfa fywiog a chartrefol braf dan arweinyddiaeth Elfed Morgan Morris. Yn ystod y gwasanaeth yr oedd y plant yn derbyn medalau am gasglu tuag at y Genhadaeth Dramor. Casglwyd swm anrhydeddus o £168 gan aelodau Ysgol Sul Bosra. Dymuna'r ugain ohonynt ddiolch i'w teulu a ffrindiau am eu cyfraniadau. Dilynwyd y Gymanfa hon hefyd gyda Te Bach bendigedig. Bydd yr Ysgol Sul yn gorffen ar 10 Gorffennaf gyda pharti bach ac yn ailgychwyn ar yr ail Sul wedi i'r ysgol ailagor, sef 11 Medi.

E I S T E D D F O D GENE DLAETHOL YR URDD 2012. Cynhelir Bwrdd gwerthu tuag at yr Apêl ddiwrnod y Carnifal, 9 Gorffennaf a chynhelir **Pwyllgor am 6.30 ar nos Fawrth, 5 Gorffennaf,** i brisio'r nwyddau.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir yr Eisteddfod nos Wener, 1 Gorffennaf am 6.00 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Y Beirniad Cerdd fydd Glesni Owen, Botwnnog; Llefaru:

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL-07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Mari Gwilym, Caernarfon; Celf: Eirian Pritchard, Caernarfon; Coginio: Janice Jones, Pentir; Llên: Arwel Jones, Cae Eboni. Llywydd y noson fydd Sioned Parry (Careb, 8 Bryn Eglwys gynt). Edrychir ymlaen am Eisteddfod lwyddiannus eto eleni. Bydd y canlyniadau a'r lluniau yn rhifyn Medi.

**E I S T E D D F O D
GENEDLAETHOL YR
URDD ABERTAWE.**

Llongyfarchiadau mawr i'r Parti Unsain ar gipio'r wobwr gyntaf, y Côr yn ail a'r Gân Actol yn drydydd. Ardderchog wir!

Llongyfarchiadau i tithau, Magi Tudur, Blwyddyn 6 ar dderbyn y wobwr gyntaf am dy waith celf celfydd.

Llongyfarchiadau hefyd i William Lamb ar ddod yn ail yn genedlaethol mewn cystadleuaeth Fathemategol. Cafodd ei wobrwyo yn yr Eisteddfod ar y dydd Iau.

**L L W Y D D I A N T
C E R D D O R O L .**

Llongyfarchiadau mawr i ti, Anest Bryn, ar ennill gradd 8 ar y Piano. 'Hysbys y dengys dyn'. **LLONGYFARCHIADAU** brwd i ti, William Lamb, ar ennill gradd 1 hefo'r Sacsaffôn Tenor a gradd 5 hefo'r Clarinet. **ARHOLIADAU.** Hwrê! i'r rhai ohonoch sydd newydd orffen sefyll eich arholiadau. Y mae rhai o fyfyrwyr y colegau wedi cael eu canlyniadau.

Llongyfarchiadau i ti, Lois Eifion, ar ennill Gradd 2 mewn Cerddoriaeth a phob hwyl gyda'th radd uwch. Llongyfarchiadau hefyd i Siôn Rees Williams o Dunstable (Gors gynt) ar ennill Gradd MA mewn Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan. Y mae eraill heb dderbyn eu canlyniadau eto – gadewch i ni wybod – byddwn yn hynod falch o'ch newyddion da.

CARNIFAL Gorffennaf 3-9.

Rhaglen gweithgareddau'r wythnos

Nos Sul, Gorff 3

Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen am 6.30 gyda Côr Plant yr Ysgol Gymuned, Côr Lleisiau Lliwedd, Llanberis a Chôr y Waun, Waunfawr. Arweinydd y Gymanfa fydd Dr William Munro a'r organydd fydd Mr Michael Davies.

Nos Lun, Gorff 4

Bingo yn Neuadd yr Eglwys am 6.30

Nos Fawrth, Gorff 5

Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30

Nos Fercher, Gorff 6

Mabolgampau ar gae yr Ysgol Gymuned am 6.00

Nos Iau, Gorff 7

Disgo yn Neuadd yr Eglwys am 6.30

Nos Wener, Gorff 8

Helfa Drysor – cychwyn o Neuadd yr Eglwys rhwng 6.00 a

6.45 a gorffen mewn gwesty am fwyd.

Dydd Sadwrn, Gorff 9

Y Carnifal. Yr orymdaith i gychwyn o'r Cartref Nyrsio am 1.30. Bydd stondinau, Castell Neidio, Gemau, Raffl, Hufen Iâ ayyb; Sêl Cist Car: £3.00. Mynediad i'r cae fydd £1 i oedolion a 50c i blant. Pawb sydd mewn gwisg ffansi yn cael mynediad am ddim. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH O GALON. Dymunir diolch i Mrs Mary Davies – Anti Mary, Llys y Gwynt – am ei gwaith diflino am flynyddoedd lawer yn danfon rhifynnau'r Eco i drigolion Llys y Gwynt a

Bryn Eglwys, a hynny drwy bob tywydd. Y mae Ann Ifans am gymryd drosodd y dosbarthu. Diolch yn fawr iawn i chi, Anti Mary, am eich gwasanaeth.

BEICIO NODDEDIG

Mae Cylch Ti a Fi Penisa'rwaun wedi codi £273 yn ddiweddar drwy gael reidio beic noddedig o amgylch iard yr ysgol. Mae'r cylch wedi dod i ben dros yr haf a bydd yn ail gychwyn ar Fedi'r 8fed yn y Neuadd Gymuned.

**Daw y rhifyn nesaf allan
ddechrau Medi. Gwyliau
Hapus i chwi i gyd.**



Babanod a phlant Cylch Ti a Fi ar eu beicio noddedig Mai 2011



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwy

Darren Jones

Contractiwr Teilsio

CEGINAU

**YSTAFELLOEDD
YMOLCHI**

A LLORIAU

*9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon*

(01286) 669090
Mobile-07894818783



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs:

(01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

CERIS JONES

Teglan,

Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partïon rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON

LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

Gwefan: www.ydyncig.co.uk

O'R CYNGHORAU

CYNGOR

LLANDDEINIOLLEN

Ysgol Penisa'rwaun.

Danfonwyd llythyr i longyfarch yr ysgol ar eu llwyddiant - 'Ar lwyfan y genedlaethol mewn tair cystadleuaeth - ffantastig! Da oedd gweld y parti heb arweinydd o'u blaen i amharu ar yr olygfa, mae'n siŵr bod hyn yn gosod cysail i Genedlaethol yr Urdd ac i'r Genedlaethol arall. Llongyfarchion mawr i'r parti am ddod yn gyntaf, i'r côr am ddod yn ail ac i'r gân actol yn drydydd mewn cystadlaethau o safon arbennig. Mae hyn yn glod i'r ardal gyfan, y fath lwyddiant o gymuned gymharol fechan. Da iawn, iawn, daliwch ati a dymuniadau da i'r dyfodol.'

Arwyddion Ffyrdd Cul. Ateb Gwynedd eto na osodir mwy o'r arwyddion yma.

Gwerthu Tân gwyllt. Llythyr Hywel Williams AS a chopi o lythyr iddo oddi wrth John Reynolds, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Gwynedd, yn cadarnhau bod busnesau yn cael eu archwilio'n rheolaidd gan swyddogion i sicrhau eu bod yn gwerthu o fewn telerau eu trwyddedau.

Y Caban, Brynrefail. Mr Simom Higgins yw cyfarwyddwr newydd y Caban ac mae Pat Jones wedi cydweithio ag ef ar sawl menter yn y gorffennol. Cawsant gyfarfod ag ef ar y laf o Fehefin ac nid oes tystiolaeth i wrth-Gymreictod yn y Caban. Mae Mr Higgins a Pat Jones yn ymddiheuro am unrhyw gamddealltwriaeth a ddigwyddodd ac yn edrych ymlaen i gydweithio i'r dyfodol.

Safle ail-gylchu, Rhiwlas. Cadarnhad Gwynedd y bydd yr Uned Gorfodaeth Stryd yn cadw golwg ar y safle. Penderfynwyd gofyn eto am arwyddion amlycach a chamerau.

Llwybr diogel o Drem Eilian i ysgol Cwm y Glo. Ateb Gwynedd nad oes cyllid eleni a throsglwyddir y cynllun i'r flwyddyn ariannol 2012/13. Penderfynwyd gofyn i'r ysgol wneud cais trwy'r cynllun 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol' a hefyd gofyn i Cyngorau Llanrug a Llanberis gefnogi'r cais.

Mynwent Macpella. Dywedwyd bod y bwrdd hysbysebion yn amhosibl ei ddarllen.

Sedd Wag, Bethel (ardal Seiont/ Fachell). Dywedodd y Clerc nad oedd ateb oddi wrth Wynedd i'r hysbyseb am enwau er bod wythnosau lawer wedi mynd heibio. Penderfynwyd penodi aelod o'r ardal.

Cae chwarae Penisa'rwaun.

Cyflwynodd Mrs Larsen geisiadau Tania Jones a Sophie Hughes am well cyfarpar sef:

- Plant 2-9 oed - Ffram ddringo fychan, roundabout gyda seddi, si-sô well a llai peryglus.

- Plant 10-13 oed - Si-sô gyda seddi bob ochr, bariâu mwnci a llithren letach.

- Ar gyfer Teulu - byrddau picnic, meinciau newydd, mwy o finiau.

Penderfynwyd yn unfrydol ddanfôn y cais i Wynedd gan ofyn be fyddai'r gost. Ystyrir cyfraniad ar ôl derbyn amcangyfrif Gwynedd.

Roedd Mrs Larsen wedi gwirioni gyda gweledigaeth a brwdfrydedd y ddwy ferch ifanc.

Parc Padarn. Dywedodd Gwilym Williams bod y Warden yn arfer talu hogyn i gloi'r gataiau am 5.00 yn y gaeaf a 6.00 yn yr haf. Mae hyn wedi ei ddiddymu ac mae'r Parc ar agor 24ain awr y dydd - Llythyr i Bary Davies, Adran Parciau a Hamdden, Gwynedd, Swyddfa Pwllheli. Pe bai rhywrai fel teithwyr oes newydd yn sefydlu yno buasai'n anodd iawn cael madael â hwy.

Cynllunio

Geisiadau a dderbyniwyd:

- 1 Glan'rafon, Clwt y Bont - estyniadau.

- Llain o dir y tu cefn i'r hen bowling green, Deiniolen - adeiladu 8 tŷ. Mae Elfed Williams yn trafod y cais yma gyda chymdogion y safle i baratoi sylwadau/gwrthwynebiadau i Gyngor Gwynedd - dyddiad cau 17/06/11

Llwybrau

- Llwybr 49, Fachwen, wedi cau gan fieri yn ogystal â Llwybrau 50 a 141 yn yr un ardal - llythyr i Wynedd.

- Llwybr 15, Cae Metta, Bethel. Llwybr hanesyddol, wedi ei gau gan giât - cŵyn i Wynedd. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 5ed o Orffennaf.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr yng Nghanolfan Waunfawr am 7.15 yh ar 25.05.2011. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

Gerddi Bach. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r posibiliadau ar y safle, a dosbarthwyd cynlluniau bras. Bydd trafodaethau pellach yn y cyfarfodydd i ddod.

Materion Caethro. Angen ysgrifennu at y datblygwr dan sylw ar gyfer safle Peblig, Caernarfon, yn datgan fod hanner y safle ym mhlwyf Cyngor Cymuned Waunfawr.

Materion Waunfawr. Bydd ychydig o waith cynnal a chadw yn cael ei wneud a'r safle y Gogolofn yn y pentref er mwyn ei thaclo, a gwaith atgyweirio y wal yno.

Trafodwyd cyflwr y llochesau bws. Dim cwynion wedi dod i law, nodwyd fod eu cyflwr yn foddhaol. Safle bws Croes y Waun - Cyngor Gwynedd wedi gosod safle bws newydd yno.

Y Fynwent. Gofynnwn yn garedig i'r rhai sy'n mynd â blodau i'r fynwent ddefnyddio y biniau pwrpasol ar gyfer ysbwriel a dim ei rhoi yn y gorlan er mwyn taclusrwydd. Diolch.

Llwybrau troed y pentref. Llwybr Fach Goch i Weirglodd Fawr - llwybr wedi ei glirio bellach a chamfa newydd wedi ei gosod yno.

Cynllunio. Roedd 1 cais cynllunio i law, a mynegwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais.

Materion eraill a godwyd yn

ystod y cyfarfod:-

- Derbyniwyd nifer o lythrau diolch am y rhoddion a roddwyd gan y Cyngor Cymuned yn ein cyfarfod diwethaf, a rhoddwyd rhodd i sefydliad lleol i annog a hyfforddi pobl ifanc i ymgymryd â'r hobi.

- Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan y feddygfa am ein llythyr o gefnogaeth yn eu cais i gael adeilad newydd i'r practis.

Cynhaliwyd cyfarfod Blyneddol Cyngor Cymuned Waunfawr yn Ganolfan Waunfawr am 7.15 yh ar 25.05.2011. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Rhoddwyd Rodd y Cadeirydd am y flwyddyn 2010/11 i Ysgol Gynradd Waunfawr.

Ail etholwyd y Cyng Gwilym Williams fel Cadeirydd am y flwyddyn 2011/12, a'r Cyng Bryn Jones fel Is-gadeirydd.

Penodwyd y Cyng Gwilym Williams, Y Cyng Pat Parry, Y Cyng Tegid Prichard a'r Cyng Bryn Jones ar gyfer Pwyllgor y Fynwent ac Eiddo, a penodwyd y Cyng Cadi Jones i wasanaethu fel Llywodraethwr Ysgol Gynradd y Waunfawr. Diolchwyd i'r Cyng Bryn Jones am ei wasanaeth ar ran y Cyngor Cymuned a'r Lywodraethwyr yr ysgol yn y gorffennol.

Penodwyd y Cyng Terry Parry a'r Cyng Clive James ar gyfer Pwyllgor Rhwydwaith Gymunedol Gwyrfa'i am y flwyddyn i ddod.

Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Cytunwyd ar ddyddiadau cyfarfodydd ar gyfer 2011-12 ac mae croeso i chwi gysylltu â'r Clerc os am fwy o wybodaeth.

Dros 50? Medrwich ymddiried yng Nghynnyrch a Gwasanaethau

 YSWIRIANT CARTREF

 NWY A THRYDAN

 YSWIRIANT CAR

 CYNLLUNIAU ANGLADD

 YSWIRIANT TEITHIO

 GWYLIAU

 GWASANAETH LARWM PERSONOL

 YSWIRIANT RHAG TORRI I LAWR

Darperir yr Yswiriant Cartref, Car a Theithio gan Fortis Insurance Limited. Darperir yr Yswiriant Rhag Torri i Lawr gan Europ Assistance Holdings Limited.

I gael mwy o fanylion ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Mon, Ty Seiont, Ffordd, Santes Helen Caernarfon LL55 2YD

Tel: 01286 678310
neu ffoniwch: 0800 085 3741
neu ymwelwch â:
www.ageconcern.org.uk/products

AGE Concern

Age UK yw'r grym newydd sy'n uno Age Concern a Help the Aged. Mae teulu Age UK yn cynnwys Age Scotland, Age Cymru ac Age NI.
Age Concern Enterprises Limited, Astral House, 1268 London Road, SW16 4ER

ACOWAL880V2JUL10_CS024825_10

POSH PAWS



TACLUSO CWN

Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP

Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost-juliaposhpaws@btinternet.com

CYNLLUN EFE

Mae Cynllun Efe wedi bod ar waith yn yr ardal ers dwy flynedd a hanner, ac mae ymddiriedolwyr yr elusen yn edrych ymlaen at barhau a datblygu'r gwaith ymhellach.

O'r cychwyn cyntaf, bu'n fwriad gennym, os yn bosibl, barhau'r gwaith heibio i'r tymor dechreuol o dair blynedd. Daw'r tair blynedd gyntaf i ben ddiwedd mis Medi, ond rydym yn eithriadol o falch o allu dweud y bydd Andrew Settatee, ein gweithiwr ieuencid yn aros gyda ni am flwyddyn arall, hyd o leiaf Medi 2012. Ein gobaith, wrth gwrs, yw y bydd yn aros yma yn fwy na hynny hefyd.

Diolchwn am bob cefnogaeth ariannol a gawsom oddi wrth yr eglwysi, enwadau, cynghorau cymuned, mudiadau, elusennau ac unigolion i gynnal gwaith Efe hyd yma. Er mwyn i'r gwaith barhau ar ôl 2012, rydym yn apelio o'r newydd am gefnogaeth ariannol. Gobeithiwn y bydd modd i'r bobl a'n cefnogodd hyd yma barhau i'n cefnogi. Am y tair blynedd gyntaf, fe gawsom gefnogaeth hael

Ymddiriedolaeth Pantyfedwen. Ond gan nad oes modd i ni gael rhagor o'r gronfa honno, mae angen i ni sicrhau mwy o gefnogaeth. Ein gobaith mawr yw y bydd rhagor o unigolion ac eglwysi lleol yn cefnogi'r gwaith trwy gyfrannu arian yn rheolaidd ato.

Anfonwch eich cyfraniadau os gwelwch yn dda at Drysorydd Efe, Mr Colin Jones, Bryn Gelli, Gellihirbant, Llanberis (01286 871150). Gellir gwneud trefniant i dalu'n rheolaidd i gyfrif banc Cynllun Efe. Unwaith eto, diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yma.

Trwy gydweithrediad â phenaethiaid ysgolion y fro, mae Andrew wedi cael cyfle i ymweld yn rheolaidd â'r

ysgolion i gynnal gwasanaethau ac i gyfrannu at wersi addysg grefyddol. Mae wedi sefydlu grwpiau CIC - Clwb Ieuencid Cristnogol - yn Llanberis a Llanrug; a grŵp ieuencid hŷn ar gyfer pobl ifanc o Lanrug a Waunfawr a Bethel, sy'n cyfarfod yn Llanrug; a chlwb chwaraeon ar ôl ysgol yng Nghwm y Glo. Bydd y gweithgareddau hyn yn parhau, a bydd clybiau eraill yn cychwyn ym mis Medi. Trefnwyd nifer o weithgareddau ar gyfer yr haf, fel y gwelir isod.

Cofiwch fod Andrew yma i'ch gwasanaethu yn y capeli a'r eglwysi. Beth am drefnu oedfa blant neu oedfa ieuencid a'i wahodd i gymryd rhan? Gosodwyd sylfaen dda i'r gwaith, a gwyddem o'r cychwyn mai gwaith a fyddai'n datblygu dros amser fyddai hwn. Edrychwn ymlaen at weld y gwaith yn tyfu ac ehangu, fel bod mwy a mwy o blant ac ieuencid, a phobl o bob oed, yn dod i ddysgu am y Ffydd ac adnabod Iesu Grist.

Cwpan Efe

Cafwyd noson lwyddiannus nos Wener, Mehefin 10, ar gae chwarae Ysgol Gynradd Llanrug pan gynhaliwyd cystadleuaeth bêl-droed 5 yr ochr dan nawdd Cynllun Efe i blant blwyddyn 4 i 6.

Roedd yno fwy na 30 o blant yn cymryd rhan, a chafwyd gemau da iawn. Timau ysgolion Sul Llanrug a Llanberis gyrhaeddodd y rownd derfynol. Tîm Llanrug a enillodd yn y diwedd, a chyflwynwyd y tlws iddynt. Cafodd aelodau'r ddau dim oedd yn y rownd derfynol fedalau, a chyflwynwyd tlysau hefyd i'r chwaraewr gorau ac i'r chwaraewr tecaf, y ddau fel y digwyddai yn chwarae i'r timau a ddaeth o gapel Berea Newydd, Bangor.

Diolch yn fawr iawn i Andrew am drefnu'r noson, ac i

Dafydd a Gwenno am gadw trefn ar y gemau a'r sgoriau. Diolch hefyd i Dafydd ac Elgan, dau o'r bechgyn ifanc sy'n dod i un o grwpiau ieuencid Efe, am ddyfarnu trwy'r nos. Diolch, wrth gwrs, i Brifathro Ysgol Llanrug, Mr Robin Williams, am ei gydweithrediad a'i gefnogaeth.

Gemau Giamocs

Yn ystod yr wythnos ddiwethaf yma, cynhaliwyd cyfres o nosweithiau Gemau Giamocs i blant oed cynradd ym mhentrefi'r fro. Ceir adroddiad llawn am y nosweithiau yn y rhifyn nesaf.

Clwb Haf

Cynhelir Clwb Haf am y tro cyntaf eleni dan nawdd Efe. Yn ystod wythnos gyntaf gwyliau'r ysgol bydd cyfle i blant Blwyddyn 3-6 ddod am ddwy

awr i'r clwb, a gynhelir yng Nghapel y Rhos, Llanrug, rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener, Gorffennaf 18-22. Bydd cyfle i ddysgu am y Ffydd trwy gyfrwng gemau a gweithgareddau amrywiol.

Mae'r Clwb Haf ar gyfer plant yr ardal, ac nid plant Llanrug yn unig. Ond mae'n rhaid cofrestru ymlaen llaw ar gyfer y Clwb. Felly, gan mai nifer cyfyngedig o blant all ddod i'r Clwb, er mwyn sicrhau diogelwch pawb, brysiwch i roi eich enw i Andrew Settatee. Gallwch archebu lle am yr wythnos gyfan, neu am ran o'r wythnos. Y cyntaf i'r felin fydd hi.

Felly, peidiwch ag oedi. Ffoniwch Andrew ar 07929916181 neu anfonwch e-bost: settatee@supanet.com.

UN FUNUD FACH

Roedd rhywun yn gweld ymhell. Ganrifoedd cyn bod sôn am gar na bws, fe gynlluniodd rhywun rowndabowt enfawr yn Dre a gosod clamp o adeilad yn ei ganol. Mae yno o hyd ym mhen pella'r Maes, a ninnau'n dal i yrru o'i amgylch. Mi fasa adeilad llai wedi gwneud y tro, ond mae'n debyg bod rhywun wedi rhagweld y byddai angen digon o le o fewn ei furiau ar gyfer y miloedd a ddeuai yno un bore braf i Wyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd.

Darn cyfarwydd o'r hen dre ydi'r castell i ni, ond mae'r ymwelwyr yn rhyfeddu ato. Mi welwch chi nhw'r adeg hon o'r flwyddyn yn sefyll a syllu ar ei furiau cadarn. A'r diwrnod o'r blaen, am un funud fach, fe sefais innau a dychmygu mod i'n cyrraedd Caernarfon a gweld y castell am y tro cyntaf. Mae'n siŵr gen i mod i wedi aros i ryfeddu at bethau tipyn llai ysblennydd mewn llefydd dieithr dros y blynyddoedd. Ond sefais i ddim yn hir, rhag i

un ohonoch ddod heibio a'm gweld yn llygadrythu fel un o'r fisitors.

Fe roddwyd Efengyl ryfeddol i ni, ond rywsut gall fod yn rhy gyfarwydd. Mae yno erioed, yn rhan o'n magwraeth a'n treftadaeth. Fedrwn ni ddim cofio bod hebddi, ac mae'r capeli a'r eglwysi yn ein hatgoffa o'r dylanwad a gafodd hi ar fywyd ein pobl dros y canrifoedd. Rydym yn gyfarwydd â stori a dysgeidiaeth Iesu ers dyddiau'r Ysgol Sul. Ond i lawer, dyna swm a sylwedd pethau, a welson nhw erioed brydferthwch Iesu Grist na synnu at ddyfnder ei gariad a'i aberth. Ond hyd yn oed os cawsom ni olwg ar werth yr aberth honno, mor rhwydd yw cyfarwyddo â'r neges syfrdanol. Mae hi yno rywsut yng nghornel bellaf ein bywyd, a ninnau wedi hen anghofio peth mor aruthrol fawr ydyw.

Ond bob dydd, fe ddaw rhai o'r newydd i syllu ar yr Efengyl hon ac i ryfeddu at gariad Duw yn anfon ei Fab i fyw a marw trosom. Maen nhw'n dotio wrth weld am y tro cyntaf erioed harddwch a thrugaredd Iesu Grist. Fynnwn ninnau hefyd aros i edrych arno? Edrych o'r newydd o bosibl, er mwyn gwirioni eto arno? Neu edrych mewn gwirionedd am y tro erioed?

Mentrwn edrych ar Iesu. Mynnwn weld beth sydd gan yr Efengyl i'w ddweud wrthym, a beth sydd ganddi i'w gynnig i ni. Ar brydiau, gall hynny olygu gadael i bobl weld ein bod yn meddwl am y pethau hyn a'n bod eisiau gwybod mwy am y Ffydd Gristnogol. Peidiwn â bod â chywilydd o fod eisiau gweld Iesu Grist a phrofi'r bywyd sydd ynddo.

JOHN PRITCHARD

Cronfa Goffa R. H. Owen

Gwahoddir ceisiadau am GRANTIAU o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion drwy anfon amlen gyda chyfeiriad a stamp arno i'r Ysgrifennydd-

John H. Hughes

**"Glyder" 8 Ffordd Capel Coch Llanberis
Gwynedd LL55 4SH
Ffon-(01286) 871562**

**Y CEISIAU i gyrraedd yr Ysgrifennydd
erbyn AWST 31ain. 2011
Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law
ar ol y dyddiad cau penodedig**

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Parhad WAUNFAWR

CLWB 300. Enillwyr y Clwb 300 am fis Mai oedd: £30: Mr Duncan Brown, Gwelfor, Ffordd Ceunant; £20: Mr a Mrs D. Greasley, Minafon; £10: Mrs Delyth Jones, Tan y Coed.

DIOLCH. Dymuna Lowri Dunn, Trigfa, ddiolch o galon am y llu anrhegion, cardiau a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn naw deg mlwydd oed ar 8 Mehefin.

LLONGYFARCHIADAU i Tomos Siôn am ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth taflu pêl drwy Sir Eryri nos Lun yn Treborth. Pob lwc i ti yn Cei Connah mis nesaf.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Maria a Doctor Huw Gwilym, Preswylfa, ar enedigaeth mab bychan, Efan Huw, brawd i Nel ac ŵyr newydd i Norman ac Olwen, Llidiart Wen.

PRIODASAU.

Llongyfarchiadau i Gerallt, mab Alfie a Heulwen, Hafod Rhug Uchaf a Kerry, merch Emyr ac Eleri, Dolydd, Y Groeslon, ar eu priodas yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch.

LLONGYFARCHIADAU i Elin Evans, Gorffwysfa, ar ei phriodas â Hywel Roberts. Priodwyd y ddau yng Nghapel y Waun gyda'r Parch Tegid Roberts yn gwasanaethu a ffrind i'r pâr ifanc wrth yr organ. Byddant yn ymgartrefu yng Nghaerdydd. Dymuniadau gorau i chi eich dau.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Bu Jason Lee, 11 Ael y Bryn, yn dathlu cyrraedd ei ddeunaw oed yn ystod y mis. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iti i'r dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Mrs Lowri Dunn a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ddechrau'r mis. Gobeithio i chi fwynhau eich diwrnod arbennig.

CROESO ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mr Alfie Jones, Hafod Rhug Uchaf adref o Ysbyty Gobowen wedi iddo gael triniaeth clun newydd yno. Gobeithiwn y byddi yn gwella ac yn cryfhau bob dydd.

CROESO adref o'r ysbyty hefyd i Llywela Morris, Stad Tref Eilian. Gobeithiwn y byddi yn teimlo'n well wedi cael dod adref.

DIOLCH. Dymuna Mrs Betty Hughes, Myra a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad, galwadau ffôn a chardiau a dderbyniwyd yn

ystod eu profedigaeth o golli brawd ac ewythr mor annwyl. Diolch i'r Parch R.O. Jones am ei wasanaeth teimladwy ac i'r organyddes, Mrs Catherine Jones. Diolch i staff Cerrig yr Afon, Meddygon Waunfawr a Ward Hebog Ysbyty Gwynedd am eu gofal tyner o Alun. Hefyd diolch i Mr Hywyn Parry a chludwyr Gwilym Jones a'i Fab am eu trefniadau trylwyr. Diolch yn fawr i bawb.

GWASANAETHAU EGLWYS Y WAUN

Gorff 3: Mr Glyn Owen

10: Y Gweinidog, Parch Gwenda Richards

17: -----

24: Mr Alun Williams

31: Parch Gwenda

Richards

Awst: Uno yn Seilo Caernarfon

Medi 4: Parch Cledwyn Griffith

GWELLHAD BUAN.

Dymunwn wellhad buan i Mrs Beti Griffith, Gorffwysfa, wedi iddi ddisgyn yn ei chartref ac anafu ei garddwrn.

YR URDD. Bu nifer o aelodau cangen yr Urdd yn cystadlu ym Mabolgampau'r Urdd ar gae Ysgol Syr Hugh Owen. Wedi cystadlu brwd a phob un wedi gwneud ei orau bydd rhai yn mynd ymlaen i gynrychioli Arfon i Fabolgampau Sir Eryri.

Bydd Huw Emrys yn y ras i fechgyn; Tomos Siôn yn taflu pêl; Mair yn cystadlu yn y naid hir a thim y ras gyfnewid cymysg. Byddant i gyd yn cystadlu dan 12 oed. Hwyl fawr ichi i gyd.

SEFYDLIAD Y MERCHED.

Mewn cyfarfod o'r Sefydliad ar 2 Mehefin estynnodd Catherine Jones, y Llywydd, gydymdeimlad yr aelodau at ddwy aelod oedd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar, sef Iris Evans wedi colli ei chwaer ac Ann Bohannon ar golli ei gŵr. Dymunodd yn dda i Annie Thomas sydd yn mynd i'r ysbyty am driniaeth lawfeddygol ddiwedd y mis. Croesawodd y Llywydd y siaradwr gwadd am y prynhawn, sef Peter Brindley i Fangor. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn, gyda sleidiau, ganddo ar hanes adeiladu Pier Bangor. Diolchodd Pat Parry iddo.

Mis Gorffennaf byddwn yn mynd am ein trip blynyddol. Eleni, mynd i weld adeilad newydd y Cynulliad yng Nghyffordd Llandudno fyddwn ni ac yna i Gaffi Clemence yng Nghonwy am de. Fydd dim cyfarfod ym mis Awst.

Argraffiadau cyntaf o'r ysgol newydd

Ymweld ag Ysgol Brynrefail

Dydd Mawrth y pedwerydd ar ddeg o Fehefin aeth Blwyddyn 6 o Ysgol Waunfawr i ymweld ag Ysgol Uwchradd Brynrefail. Daliais i'r bws yn y safle bws olaf ar ffordd yr ysgol. Roeddwn yn nerfus ychydig bach ond yn gyffrous hefyd. Eisteddodd plant Waunfawr i gyd ar y llawr cyntaf yn y cefn. Roedd y bws braidd yn llawn gan fod yna lawer o blant arno. Pan gyrhaeddodd yr ysgol roedd y plant i gyd yn gwthio a pan ddaethom allan o'r bws roedd pawb yn syllu arnom.

Siaradom gyda rhai o gyn disgyblion ysgol Waunfawr. Ar ôl siarad am tua 10 munud aeth y gloch ac aethom at y brif fynedfa a chyfarfom ddau o ddisgyblion Hendre a disgybl o Bontnewydd. Tywysodd Mrs McDermott i'w hystafell a gwnaeth hi ein cofrestru. Dywedodd bod gennym chwe gwers sef Ffrangeg, Coginio, Celf, Daearyddiaeth, Prawf Darllen!!! a helfa drysor. Aeth Mrs McDermott a ni i'r cwt Ffrangeg wedyn. Yn y wers cawsom ddysgu'r Wyddor yn Ffrangeg, a rhifau 0-20 yn Ffrangeg. Rhannodd Mrs McDermott ni i ddau grŵp sef grŵp A a grŵp B. Roedd grŵp A yn coginio a Grŵp B yn gwneud celf.

Roeddwn i yn Grŵp A felly roeddwn i yn coginio. Yn y wers goginio gwnaethom fflapjacs, a mae'n rhaid i mi ddeud fy hun, roedden nhw yn flasus iawn!! Cawsom egwyl ar ôl coginio. Roedd yna lawer o ddewis yn cynnwys tost a bisgedi. Newidiodd y grwpiau rownd wedyn roeddwn i yn gwneud Celf. Yng Nghelf roeddwn yn gorfod cymysgu lliwiau. Cawsom ddaearyddiaeth cyn cinio, roedd y wers yn llai nag arfer oherwydd bod ni yn cael cinio buan. Gwnaethom waith ar Ynysoedd Prydeinig i ddilyn.

Roedd yna lawer o ddewis amser cinio, ond cymerais sglodion a selsig. Cerddom rownd yr ysgol ar ôl cinio. Cawsom brawf darllen Cymraeg gan Mrs McDermott. Helfa drysor oedd y wers ddiwethaf un. Mwynheais yr ymweliad yn fawr ac rwyf yn edrych ymlaen at fis Medi.

TOMOS SIÔN

Ymweld ag Ysgol Brynrefail

Ddydd Mawrth, pedwerydd ar ddeg o Fehefin, deffrodd Mam fi yn llawer mwy buan nâ'r arfer, a chofiais am yr ymweliad i Ysgol Brynrefail. Ar fy ffordd i'r safle bws teimlais ychydig yn nerfus ond ar ôl gweld fy ffrindiau roeddwn yn teimlo'n well. Ar ôl mynd i mewn i'r bws roedd pawb yn edrych arnom ni yn od iawn, ni oedd y disgyblion lleiaf, yn yr ysgol. Gwelais weddill fy ffrindiau yng nghefn y bws a chyn ddisgyblion a ffrindiau y flwyddyn cynt. Roedd yn wyllt ar y bws ond roedd pawb yn mwynhau.

Pan gyrhaeddodd yr ysgol aeth pawb o Ysgol Waunfawr at ei gilydd tra canodd y gloch ac aeth pawb i'r drws blaen i ddisgwyl am Mrs McDermott ac fe aeth hi â ni i'w hystafell i gofrestru a chael gwybod pa wersi roedd yn disgwyl ni sef Ffrangeg, Celf, Coginio, Daearyddiaeth, Gwers gyda Mrs McDermott, a Helfa Drysor. Roedd y wers Ffrangeg mewn cwt y tu allan, dysgais sut i gyfri i 20 ac ychydig o'r wyddor a sut i ddweud beth yw eich enw a sut i'w sillafu. Wedyn rhannwyd y dosbarth yn ddau grŵp, un yn gwneud celf, a'r llall yn coginio. Celf wnes i gyntaf gan wneud gwaith ar liwiau.

Ar ôl amser egwyl aethom i goginio a gwneud fflapjacs neis iawn. Coginio oedd fy ngwers orau i oherwydd bod y fflapjacs mor neis. Gwers olaf y bore oedd Daearyddiaeth roedd y wers amdan yr ynysoedd Prydeinig ac am ei phoblogaeth. Amser cinio cefais selsig, ffa pôb a sglodion ac i bwdin gefais fised anferth. Drwy'r amser chwarae'r prynhawn buom yn cerdded o gwmpas yr ysgol.

Siom fawr iawn gafodd pawb yn y wers ar ôl cinio oherwydd prawf darllen oedd y wers!! Wrth gwrs hon oedd y wers waethaf gan bawb. I orffen y diwrnod cawsom helfa drysor rownd yr ysgol ond doedd dim digon o amser oherwydd roedd y bysus wedi cyrraedd ac ni oedd y cyntaf arni ac eisteddom ar ail lawr y bws ac roedd llawer o hwyl fyny grisiau hefyd. Ar ôl yr ymweliad dwi'n edrych ymlaen yn arw i fynd i ysgol Brynrefail y flwyddyn nesaf.

TOMOS MORGAN

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwyd

ECO NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r Eco o'r wasg ddiwedd mis Awst. Os bydd gennych hanes rhyw ddigwyddiad i'w nodi yn y rhifyn dowch a'r wybodaeth ataf os gwelwch yn dda. Diolch. Mwynhewch wyliau yr haf, beth bynnag fo'r tywydd.

BARA CAWS

Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro 2011

'X'FOD'

gan Tudur Owen a Tony Llewelyn
ar Faes Carafannau'r 'Steddfod (Wrecsam a'r Fro)
Awst 1 - Awst 5, 2011

Mae 'na garafán arbennig iawn ar y maes carafannau eleni, ac mae 'na lu o bethau hwyliog yn digwydd dan ei hadlen. Dewch i gael cip ar ddyfodol y brifwyl mewn awr wallgo' gyda Bara Caws. Sioe awyr agored i'r teulu i gyd ar y Maes Carafannau - bob dydd am 5.30 gydag wynebau adnabyddus: Lisa Jen Brown, Catrin Jane Evans, Iwan John, Arwyn Jones, Neil Williams.

Cyfarwyddwr: Martin Thomas

Noddir y cynhyrchiad yma gan CEIR CYMRU, BETHEL

I archebu tocynnau o flaen llaw ffoniwch: 01286 675 869

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod:

Bydd tocynnau ar werth yng Nghaffi'r Theatrau gyferbyn â Theatr y Maes (ar faes y 'Steddfod) neu ar y Maes Carafannau o 3.00 ymlaen neu drwy ffonio Mari Emlyn: 07884232867

'Un Fach Flewog'

gan Eilir Jones
Clwb R.A.F.A.

Ffordd Rhuthun Wrecsam
Awst 2 - Awst 5, 2011

Sioe glybiau wallgo' arall gan Eilir Jones a'r tro yma siop anifeiliaid anwes Neville a Kiley sydd mewn trafferth. Mae'r RSPCA yn benderfynol o gau'r siop ac mae Neville yn gwybod yn iawn fod gan Hughsey o Head Office ddiddordeb mewn sawl peth blewog dan ei ofal.

Fydd y siop yn cau? Fydd Kiley' mwytho creaduriaid diarth? A be am y stoc - fydd y ll'godan ffrenig yn llwyddiannus hefo'i gynllun dychrynlyd? Gyda chast gwyh yn cynnwys: Iwan Charles, Bryn Fôn, Gwenno Elis-Hodgkins, Maldwyn John a Catrin Mara.

Cyfarwyddir y sioe gan John Glyn Owen a'r cynllunydd yw Emyr Morris-Jones.

Yn ogystal â'r sioe glybiau bydd gig ar ôl pob perfformiad:

Nos Fawrth, 2 Awst
Gai Toms a'r Band
Nos Fercher, 3 Awst
John ac Alun
Nos Iau, 4 Awst
Wil Tân
Nos Wener, 5 Awst
Bryn Fôn a'r Band

(cyn y 'Steddfod) ffoniwch 01286 675 869.

Sylwer:

Yn ystod wythnos y Steddfod bydd tocynnau ar werth yng Nghaffi'r Theatrau (gyferbyn â Theatr y Maes) neu yn y Clwb R.A.F.A. Ffordd Rhuthun, Wrecsam (ffon: 01978 261221 neu 07834811525) neu drwy ffonio Mari Emlyn: 07884232867.

Taith y sioe glybiau 'Un Fach Flewog'

gan Eilir Jones.

Yr Actorion: Iwan Charles, Bryn Fon, Gwenno Hodgkins, Maldwyn John, Catrin Mara
Cyfarwyddwr - John Glyn

Medi 6ed - Hydref 8fed

Yr oll o'r perfformiadau i gychwyn am 7.30

Mawrth i Iau, 20-22 Medi:

Clwb Pêl-droed Caernarfon.
Tocynnau: Huw: (01286) 675607.

Gwener a Sadwrn, 23, 24 Medi, Clwb Rygbi Bethesda

Tocynnau: Linda ar (10248) 601526 neu Huw ar (01248) 602480.

Nos Iau, 29 Medi

Clwb Rheilffordd Bangor

Tocynnau: Pontio (01248) 382828

Gwener, Sadwrn, 30 Medi a 1 Hydref. Gwesty'r Dolbadarn, Llanberis

Tocynnau: Aneurin: (01286) 870277

Y Gadwyn Cylchgrawn Llafar Cymraeg ar gyfer y deillion

Yn ystod mis Hydref 1992 cyfarfu nifer fach o wirfoddolwyr brwdfrydig i wyntyllu'r posibilrwydd o gynhyrchu cylchgrawn Cymraeg ar dâp ar gyfer rhai yn ein plith sy'n dioddef o nam ar y llygaid. Wedi peth trafodaeth, sylweddolwyd y byddai angen rhagor o ddwylo i wireddu'r freuddwyd, a gwahoddwyd cynrychiolwyr o bob pentref a thref o fewn yr hen Sir Ddinbych a thros y ffin yn Sir Gaernarfon. Daeth nifer dda ynghyd ac roedd yn amlwg o'r dechreuad nad oedd ball ar eu brwdfrydedd a phenderfynwyd lansio Y Gadwyn ar Ddydd Gŵyl Ddewi 1993.

Ar y dechrau, dosbarthwyd rhyw dri deg o gopiau ond lledaenodd y sôn am Y Gadwyn fel tân gwyllt ac yn fuan roedd

oddeutu tri chant o'r waledi bach melyn yn crwydro tros Gymru gyfan, i rannau helaeth o Loegr a thros y môr i Awstralia, Seland Newydd a Phatagonia. Roedd yn amlwg oddi wrth ymateb y gwrandawyr fod y gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Erbyn heddiw, mae wynebau newydd wedi ymuno â'r criw a'r brwdfrydedd mor heintus ag erioed.

Mae rhywbeth at ddant pawb ar y tâp a'r cryno ddisg, gan gynnwys sgysiau am natur a'r amgylchedd, cyfweiliadau diddorol a hefyd cerddoriaeth amrywiol. Os hoffech dderbyn tâp neu cd yn fisol, anfonwch air at yr Ysgrifennydd yn Swyddfa'r Gadwyn, 19 Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn LL29 8HT neu ffoniwch 10745 823938 neu 01745 823802.

Agor Salon y Sgwâr, Llanrug



Oes mae gennyf lawer iawn o atgofion am fy nghyfaill Huw Price, mi gefais lawer iawn o bleser yn ei gwmpeini wrth bysgota yr Afon Seiont, yn arbennig, 'sgota nos am 'wyniadau'. Mi oedd â dawn naturiol at wahanol bleserau fel yr ardd, arlunio a thrwsio clociau, ond i mi, mi oedd yn arbenigo ar ddweud 'straeon celwydd golau', mi oedd yn bencampwr ar y grefft hwyliog yma.

40 mlynedd o atgofion fu gen i am Huw Afon Rhos. Cymeriad hoffus iawn.

GWYNFOR

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warant 3420271



Ar Ben Arall y Lein

Pwy all gael unrhyw ddylanwad ar y tywydd 'ma tybed: eira a ben y Wyddfa yn nechrau Mehefin yn ogystal â chawodydd o genllysg trwm yma ym Methel. Dyma'r tymor cyntaf imi gael fy chwythu oddi ar Lyn Padarn ddwy waith o fewn wythnos. Er hyn mae'r pysgota wedi bod yn foddhaol dros ben ar rannau o ddyfroedd y Gymdeithas.

Mae Llynnoedd Nantlle a Cwellyn wedi bod yn eithriadol o gynhyrchiol gyda'r brithyll brown mewn cyflwr arbennig o dda i gysidro'r gaeaf hir aeth heibio. Plu maint 12 a 14 yw'r dewis gyda amrywiaeth ar y blaen llinyn o Betrisen Corff Twrch, Llwyd Corff Main, Melyn Budur a Petrisen Corff Gwin yn gwneud y busnes. Mi fydda i'n hoffi rhoi rhywbeth bach hefo tipyn o sglein arni hefyd fel Bwtchar neu Peter Ross, rhywbeth i dynnu eu sylw fel petai.

Wrth gwrs, llynnoedd naturiol gwyllt yw Nantlle, Cwellyn a Phadarn, ond mae cryn ddiddordeb yn y Brithyll yr Enfys sydd ar gael drwy stocio cyson ar Lyn y Dywarchen. Yn y fan hyn mae plu tipyn mwy modern yn boblogaidd. Hudwyr rwy'n credu yw'r gair i ddefnyddio am y plu yma, os y gellir eu galw yn blu: 'Montana, Boobies, Vivas, Fritz' yw'r enwau a glywir ar lannau Dywarchen, ond fodd bynnag dal mae y pethau 'ma gyda rhai ddigon â chodi ofn ar rhywun gyda'u llygaid mawr amryliw. Mae gennyf ofn mai un traddiadol ydw i. Cofiaf Now 'Bach' Roberts, Llanrug, yn dweud wrthyf pan oeddwn yn dechrau arni i glymu plu ac wedi rhoi pen lliw coch ar rhyw bluen neu gilydd,

'Tydi hon yn da i ddim. Pa bryd welis di bry ar yr afon 'ma

hefo pen coch? Cofia roi pen du ar pob un!'

A dyna rwy'n wneud ers hynny. Oedd o yn iawn tybed? Wel, darllenwch lyfr ardderchog Plu Stiniog gan y ddiweddar Emrys Evans o Blaenau, ble mae plu llynnoedd ei fro wedi eu disgrifio gyda lluniau heb eu hail. Mae'r plu yno gyda phennau o bob lliw, ac eto mae plu Now yn dal i ddal, i gyd â pennau du. Mi oedd Now wedi clymu miloedd o blu llwyddiannus yn ei oes, ac wedi eu rhannu a'u gwerthu i gannoedd o bysgotwyr o pob rhan o'r wlad, felly mi adewa i i chwi weithio hyn allan.

Tra'n sôn am blu'r ardal yma, roeddwn yn ffodus dros ben yn ystod Medi 1991 i dderbyn gan y diweddar W.E. Roberts, Dolgellau, docyn o bapurau oedd wedi eu copio ganddo yn 1930 pan yn gweithio yn Swyddfa'r Sir yng Nghaernarfon. Cofnod ydynt o blu a oedd yn cael eu defnyddio i bysgota'r Seiont yn ystod y blynyddoedd yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r manylder sydd wedi mynd i egluro'r gwahanol liwiau y dylid eu defnyddio ar yr un bluen pan fo rhediad gwahanol a'r lif yr afon, neu rhyw newid bach yn y dymheredd, yn anhygoel. Yn anffodus mae'r ysgrif yn Saesneg ac rwyf wedi rhoi rhyw dro ar ddechrau - araf iawn hefyd - ar gyfieithu'r gwaith gan, yn fy nhyb i, mae yn bwysig fod rhain yn cael eu cadw fel rhan o hanes 'sgota'r ardal.

Rwyf wedi eich syrffedu, mwy na thebyg, yn rhoi tro yma ac acw ar y problemau sy'n gysylltiedig â Llyn Padarn. Roedd adroddiad ar beth yw canlyniad ymchwil Asiantaeth yr Amgylchedd i'r sefyllfa, ac yn bwysicach, ar sut y bwriedir ymdrin â'r broblem. Roedd yr adroddiad i fod i ddod i'r golwg yn ystod Chwefror eleni, ond yn fisol mae pethau wedi ei dileu. Rydym yn awr wedi cael sicrwydd y bydd y cwbl yn cael ei ddatgelu i gyfarfod o Fforwm Padarn sydd i'w gynnal yn ystod dyddiau cyntaf Gorffennaf. Rwyf wedi gofyn am gopi o flaen llaw er mwyn cael ei ddadansoddi cyn dod i drafodaeth. Yn ôl pob golwg, ni fydd hyn yn bosib. Felly y pryder sy'n bodoli yw y bydd yr adroddiad yn cael ei chyflwyno a dim ond ochr yr Asiantaeth fydd yn cael sylw, ond cawn weld be ddaw. Unwaith y bydd copi i law mi fydd yn bosib ei ddarllen drwy ymweld a safle we'r Gymdeithas sef www.sgll.co.uk

Diddorol oedd darllen Chwilota yn rhifyn Mehefin o'r

Eco - hanes am Llyn Cwm Dwythwch. Rwy'n cofio'r cwt cwch yn iawn, yn ystod y 1970'au cynnar roeddwn yn 'sgota'r llyn yn rheolaidd, ac o ran hynny, rwy'n dal i fynd yno yn achlysurol. Ond y cwt cwch - roedd wedi ei leoli rhyw 200 llath ar ochr y Wyddfa o'r Afon Hwch sy'n rhedeg o'r llyn. Yn 1970 roedd yn dal i fod yn gwt mewn cyflwr da, ond yn raddol roedd difrod yn cael ei wneud drwy dynnu llechi'r oddi ar y to, yna y coed, wedyn roedd y waliau yn cael eu tynnu ac, yn syndod, yn araf ddiflannu. Erbyn tua 1980 doedd dim ar ôl. Hyd yn oed y sylfaen. Gwaith y Cyfryw Rai efallai!

Ond sut mae'r 'sgota yn dal i fod yn dda, ond rhaid 'sgota yn y bore neu fel mae'n dod i wyllnos, dyna'r adegau mae pysgod bras ar eu nofiad. Mae rhai i'w dal yn ystod y dydd hefyd ond rhai bach yw'r rhain. Mae'r lle, diolch i'r drefn, yn dal i gael ei alw gan y rhai sy'n gwybod yn 'Aquarium' A phwy yw perchennog y Llyn - wel yr hawliau pysgota beth bynnag yw Asiantaeth yr Amgylchedd, wedi etifeddu'r lle fel hyn:

Rhannau o Stad y Faenol yn cael eu gwerthu yn 1969. Rhannau eraill yn cael eu trosglwyddo i'r Llywodraeth, sef Swyddfa Cymru, rheini wedyn yn gwerthu i'r tenantiaid, ond yr hawliau pysgota yn cael eu trosglwyddo i Dŵr Cymru (efallai gynt i Fwrdd Afonydd Gwynedd) wedyn drwy ad-drefnu i Awdurod Afonydd Cenedlaethol ac wrth i'r rhain ddod i ben, trosglwyddiad i Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae heddiw ddealltwriaeth rhwng yr Asiantaeth ar Gymdeithas i reoli'r bysgotfa.

Drwy dawelu am y tro, rhaid ymestyn ein cydymdeimlad dwys i deulu Huw Price, Afon Rhos, Llanrug, a ymadawodd â ni yn ddiweddar. Huw oedd aelod oes hynaf y Gymdeithas, bu'n ffodus i gael cyrraedd ei 94 mlwydd oed. Cymeriad hoffus dros ben. Yn gyntaf, roedd yn grefftwr o 'sgotwr, gyda dealltwriaeth a pharch arbennig i'w amgylchfyd. Yn ogystal â 'sgotwr penigamp roedd yn gymwynaswr, hanesydd brwdfrydig a storiwr heb ei ail.

HUW PRICE HUGHES

Gwasanaethau Garddio Gorwel

01286 650761
07773 020424

Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG

GWASANAETH GOFAL CARTREF Caredig cyf

GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

- ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL
- GOFAL PERSONOL-BATHIO
- CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU
- EISTEDD YN YSTOD Y DYDD A GYDA'R NOS
- GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN
- CEFNOGI POBL
- CYSYLLTU A GWASANAETHAU ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?

•Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn recriwtio yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-

Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.

UNED F3 • INTEC • Ffordd y Parc • Parc Menai • Gwynedd LL57 4FG

FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601

EBOST- post@caredig.com

RHEDEG MYNYDD

Mae Cyfres Rasys Nos Fawrth yn poethi, ac erbyn i'r rhifyn hwn o'r 'Eco' eich cyrraedd, dim ond un ras fydd ar ôl, sef Moel Eilio. Fel mae'r canlyniadau'n sefyll ar hyn o bryd, gallai'r cyfan ddibynnu ar y ras olaf yn y gyfres, gan mor agos i'w gilydd yw sgôr y rhedwyr sy'n ymgiprys am y gwobrau.

Mae'r brodyr Rhys (dan 16) ac Owain James (dan 18) o Ddeiniolen yn amlwg yn eu hadrannau. Felly hefyd Claire Donnelly, Dinorwig yn yr adran i enethod dan 16.

Yn yr adran dros 40 oed, mae gan Paul Jenkinson, Waunfawr a Noel Craine, Llanberis obaith am wobrau. Felly hefyd Arwel Lewis, Bethel, Ashley Wager, Brynrefail, Chris Forrest, Ceunant a Phil Jones, Waunfawr yn yr adran dros 50 oed, a Dafydd Thomas, Llanrug yn yr adran dros 60 oed.

Gall gwobrau ddod i'r ardal yn sgil y merched hefyd, sef Ali Thomas, Llanberis a Libby Peters, Dinorwig (dros 40 oed), Stel Farrar, Dinorwig (dros 50 oed) a Maggie Oliver, Dinorwig (dros 60 oed). (Pam tybed fod merched arbennig o dda am redeg yn Ninorwig?)

Yn adrannau'r plant dan 14, dan 12, dan 10 a dan 8, mae cynnydd sylweddol yn nifer y rhedwyr eleni. Braf hefyd yw gweld cynifer o rieni yn cefnogi, ac yn rhedeg o amgylch y cwrs gyda'r plant ieuengaf. Ac mae'n amlwg fod y plant yn mwynhau rasio yn erbyn mam a dad, a phob un yn cael gwobr am orffen. Mae mwyafrif y cystadleuwyr yn dod o fro'r 'Eco' a bydd cyfran dda o'r gwobrau yn dod i'r ardal. Canlyniadau llawn yn rhifyn Medi.

Braf hefyd yw cael adrodd fod gan Glwb Rhedwyr Eryri hyfforddwr trwyddedig ar gyfer plant sydd â diddordeb mewn rhedeg mynydd. Mae Paul Jenkinson o'r Waunfawr eisoes wedi cychwyn sesiynau ymarfer yn Llanberis ar foreau Sul.

Tîm Buddugol Bethel



Ras yr Wyddfa

Mae'r paratodau unwaith eto yn barod ar gyfer un o brif rasys mynydd Prydain, a da deall fod sesiynau ymarfer i'r plant yn Llanberis ar nosweithiau Llun yn cael cefnogaeth leol dda.

Dymuniadau gorau i bawb sy'n cystadlu - a gobeithio am well tywydd!

O Gastell i Gastell

Am hanner awr wedi saith fore dydd Iau, y 9fed o Fehefin cychwynnodd Ian Jones, Kai Banholzer a Nidian Huws reidio beic o Gastell Caernarfon. Y nod oedd cyrraedd Castell Caerdydd erbyn y Sadwrn, a chodi swm sylweddol o arian tuag at ddwy elusen yr un pryd. Roedd Nidian yn casglu tuag at Gymdeithas MS oherwydd bod perthynas iddo yn dioddef o'r salwch. Cymdeithas Alzheimer oedd yn elwa o ymdrech Ian Jones gan fod nain ei gymar, Elin, wedi dioddef o'r clefyd. Roedd Kai yn cefnogi'r ddau achos a'i ddau ffrind yr un pryd!

Aeth y diwrnod cyntaf yn arbennig o dda, gan gyrraedd Carno erbyn canol pŵn. Gorffwys yno dros nos cyn cyrchu am Fannau Brycheiniog

a dringo caled cyn cyrraedd Merthyr. Fu'r tywydd ddim mor ffafriol, gyda'r hogiau'n gorfod brwydro gwyntoedd cryfion, glaw a chenllysg.

Roedd y bore Sadwrn yn well, a chyrhaeddwyd Castell Caerdydd erbyn un o'r gloch y pŵn i'w croesawu yno gan ryw ddau ddwsin o ffrindiau ac aelodau o'u teuluoedd. Hyd yn hyn, llwyddwyd i gasglu tua £1500 i'w rannu rhwng y ddwy elusen, ond mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno i ychwanegu at y gronfa.

Mae'r clwy reidio wedi gafael, ac er bod Ian yn dioddef cymalau poenus ar y bore Llun, roedd yn benderfynol o 'ddechrau reidio beic o ddifrif o hyn ymlaen!' Llongyfarchiadau i'r bechgyn lleol am eu camp ac i haelioni pawb a'u noddodd.

TLWS YR ECO: PÊL-RWYD


Daeth pedair ysgol i ymgiprys ar gwr Ysgol Gynradd Llanrug, sef Llanrug, Bethel, Waunfawr a Llanberis. Diolch eto eleni i Catrin Jones am y trefniadau trylwyr. Un gystadleuaeth a gynhaliwyd eleni, sef dan 9. Efallai, y gellir trefnu cystadleuaeth i Fl. 5 a 6 ym mis Medi.

Fel mewn sawl camp bellach cafwyd timau cymysg. Rwyf wedi sylwi fod mwy o ferched yn dod i sesiynau hyfforddi criced draw ym Mangor erbyn hyn.

Roedd pob Ysgol yn herio'i gilydd ac, ar ddiwedd y noson, Bethel a Llanrug oedd yn y gêm derfynol. Wedi'r chwysu aeth y tlws draw i Fethel.

Aelodau tîm Bethel oedd : Ywain Emrys Jones, Callum O'Donnell, Cara Jones, Sioned Jones, Amara Roberts, Gwenllian Griffith ac Angharad Jones.

Cofiwch
gefnogi ein
hysbysebwy.



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: 08444 119 004

H.E. HUGHES
A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

CHWARAEON

YMDDIHEURIADAU

Oherwydd diffyg canolbwyntio, danfonais erthyglau cyfatebol 2010 y mis diwethaf. Dyna yw gwendid cadw popeth ar gyfrifiadur mae'n siŵr. Mae'r dyddiadau cywir wedi eu trosglwyddo i reolwyr timau Tlws yr Eco. Henaint ni ddaw ei hunan.

SIWRNAI SEITHIG

Dyna fu fy hanes fel sylwebydd ar gêm 20/20 Morgannwg yn erbyn Hampshire yn ddiweddar. Gyrru i lawr bore dydd Gwener a dim dropyn o law hyd at Ferthyr. Ond, erbyn amser y gêm, dilyw go iawn a dim gobaith. Trueni oedd hyn gan fod Morgannwg ar rediad da, ac wedi colli gêm agos iawn draw yn Hampshire. Cryn edrych ymlaen, yn enwedig i weld Simon Jones yn erbyn ei hen glwb. Dim siawns, ond cyhoeddiad y noson honno fod Simon wedi ymuno â Morgannwg ar gyfnod o fenthig am fis. Wedi colli'n siomedig gartref yn erbyn Essex, gobeithio y bydd Morgannwg yn dal â siawns i orffen yn y pedwar uchaf pan ddychwelaf nos yfory ar gyfer y gêm yn erbyn Surrey.

Roedd rhywun yn ymwybodol o'r frwydr sy'n wynebu swyddogion Morgannwg i ddenu'r cefnogwyr i Stadiwm Swalec. Ni fu'r tywydd yn ffafriol yn ddiweddar a siomedig fu'r torfeydd ar gyfer y gêm brawf ac am y gemau ugain pelawd. Yn amlwg, os yw'r gêm ar y teledu mae'n amharu ar y dorf, ond tybed a yw cost tocyn erbyn hyn yn fwy o fygythiad? Ac nid oes 'newyddeb' yn y ffurf 20/20 erbyn hyn.

TIPYN O GWMNIAETH

Bu Daniel Bell o Fethel yn chwaraewr dan gytundeb yn Oldham Athletic ers dau dymor bellach. Cafodd dymor llwyddiannus y llynedd gan ymddangos mewn ambell gêm i'r ail dîm. Braf cael cyhoeddi y bydd un arall o Fro'r Eco yn ymuno ag o y tymor nesaf. Mae'r clwb wedi cynnig cytundeb i Tomos Emlyn o Llanrug. Da gweld un arall o fechgyn Brynrefail yn dringo'r Ysgol. Y gobaith yw datblygu Tomos fel 'wing back'. Cofiaf yn iawn am ddoniau rheoli ei dad 'ar y bêl'.

Mae pêl-droed yn achau y ddau yma, ac edrychwn ymlaen i ddilyn eu datblygiad. Dyma ddau hefyd gyda nifer dda o fedalau Tlws yr Eco yn eu casgliad. Tybed a welwn ni egin arall yn amlygu ei hun yn y gystadleuaeth eleni?

ROWND A ROWND Y 'BOARD'

Yn rhifyn mis diwethaf cyfeiriais at y ffaith fod Tafarn y Bull, Deiniolen a chyfle i gyflawni

camp ryfeddol yng Nghynghrair Dartiau Caernarfon a'r Cylch. Fel sy'n hysbys, cafwyd tymor rhyfeddol. Llongyfarchiadau iddynt. Gan fy mod yn credo mai un o ddyletswyddau papur bro yw croniclo 'hanes' lleol, teg yw nodi eu camp.

BULL 'A': Pencampwyr: Adran 1, Cynghrair y Parau, Cwpan Dafydd Cigydd, Cwpan Bob Jones, Cwpan Wilkes.

BULL 'B': Ail yn: Adran 2, Cwpan y Parau Adran 2, Cwpan Alan Pritchard. Ar ben hyn, daeth llwyddiant hefyd yn y cystadlaethau i unigolion a pharau.

Pencampwyr y Parau i'r Gynghrair ac enillwyr Cwpan Gwilym Griffiths oedd Carwyn Moss Jones ac Arwel Griffiths. Carwyn oedd Pencampwr Unigol y Gynghrair. A daeth tlws arall am berfformiadau gorau'r tymor yn y Brif Adran yn rhanedig i Cemlyn Jones a Carwyn Moss Jones. Rhyfeddol!

Genod Llewod Llanrug: Pencampwyr Gogledd Cymru



Roedd dau dîm o Llewod Llanrug yn y ffeinal cwpan Cynghrair 'North Wales Coast Girls Football' dydd Sadwrn, 21 Mai, yn Kinnel Bay. Enillodd y genod dan12, 1-0 yn erbyn Prestatyn, a'r genod dan 14 hefyd yn ennill yn erbyn Prestatyn 5-1. Mae'r ddau dîm wedi dod yn 'runners-up' yn y Gynghrair. Da iawn nhw!!!

CPD IEUENCTID BETHEL dan 12oed



Tîm Pêl-droed Ieuencid Bethel dan 12oed. Enillwyr Cwpan Chwarae Teg Gwyrfai 2011.



Tîm Pêl-droed Ieuencid Bethel dan 12 oed. Enillwyr Twrnament Caergybi 2011.

Mae'r tîm yma yn un arbennig iawn. Er mai chwarae i Glwb Bethel mae'r hogiau, maent i gyd yn byw ym mro yr Eco. Mae'r hogiau, o Lanberis, Waunfawr, Deiniolen, Cwm y Glo a Bethel wedi dod at ei gilydd gan fod y niferoedd yn rhy isel yn y pentrefi i gynnal timau. Dymuna Huw a Iwan ddiolch yn fawr i'r hogiau am eu hymroddiad drwy'r tymor ac hefyd i'r rhieni am eu cefnogaeth barod bob amser.

Dymuna'r clwb ddatgan diolch i noddwr y tîm, sef 'Crefftwyr Cymreig'. Edrychwn ymlaen at dymor newydd.

LLEWOD LLANRUG A BETHEL

Er bod y tymor pêl-droed wedi hen ddarod, mae tymor y twrnameintiau yn ei anterth, gyda chystadlaethau i'r amrywiol oeddrannau ieuencid yn wythnosol bron. Yn ystod y mis diwethaf daeth llwyddiant i dimau dan 11 oed Llanrug, gan ennill twrnament Llangefni heb golli'r un gêm, ac yna ennill twrnament Penrhyndeudraeth mewn diwrnod tebycach i ganol gaeaf. Rhwng y ddwy gystadleuaeth, buont hefyd mewn ffeinal Cynghrair Gwyrfai yn Llanberis, ond y tro hwn, colli fu'r hanes, a thîm Bethel oedd yn fuddugol. Mae'n argoeli'n dda am dîm pêl-droed llwyddiannus eto'r flwyddyn nesaf yn Ysgol Brynrefail!